## Cynnwys


**ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2012 – MAWRTH 2013 .............................. 2**

GGAT 1 Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol ........................................ 2

GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Rhanbarthol a GGAT 92 Cymorth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ........................................ 7

GGAT 100 Allgymorth Rhanbarthol ........................................ 8

GGAT 103 Arfordir Morgannwg-Gwent ........................................ 13

GGAT 112 Meysydd Awyr yr Ail Ryfel Byd yn Ne-ddwyrain Cymru ........................................ 15

GGAT 118 Mynediad at Ddata sy'n Deillio o Reoli Cynllunio Archaeolegol ........................................ 18

GGAT 119 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar (c1100-1750) De-ddwyrain Cymru: Melinau Gwynt ym Morgannwg a Gwent ........................................ 20

GGAT 120 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar (c AD1100-AD1750) De-ddwyrain Cymru: Cloddio Cynnar ym Morgannwg a Gwent ........................................ 21

GGAT 121 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar (c AD1100-AD1750) De-ddwyrain Cymru: Cynhyrchu Haearn – Gefeiliau ym Morgannwg a Gwent ........................................ 22

GGAT 122 Nidum – Caer ac Amgylchion Rhufeinig ........................................ 23

GGAT 123 Arolwg Mynachaidd Cymunedol Margam ........................................ 25

GGAT 124 Eisteddfod Llandŵ 2012 ........................................ 27

GGAT 125 a GGAT 127 Polygonau Glastir ar gyfer Data Coetiroedd Preifat ........................................ 28

GGAT 126 Safleoedd Damweiniau Awyrennau Milwrol yn Ne-ddwyrain Cymru ........................................ 29

GGAT 128 Mynwent Cwm Nash, Yr As Fawr: arolwg geoffisegol a thopograffig ........................................ 30

**AROLWG O BROSIECTAU CADW EBRILL 2013 – MEDI 2013 ........................................ 33**

GGAT 103 Prosiect Arfordir Morgannwg-Gwent ........................................ 33

GGAT 118 Mynediad at Ddata sy'n Deillio o Reoli Cynllunio Archaeolegol ........................................ 34

GGAT 129 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar De-ddwyrain Cymru (c AD1100-AD1750): Maenorau Sistersaidd Morgannwg a Gwent ........................................ 35

GGAT 131 Arolwg a dadansoddiad o'r adeiladau yn Abaty Nedd ........................................ 36

**RHAGLEN Y DYFODOL HYDREF 2013 – MAWRTH 2014 ........................................ 38**

GGAT 1 Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol ........................................ 38

GGAT 100 Gwasanaeth Allgymorth Rhanbarthol ........................................ 38

GGAT 103 Prosiect Arfordir Morgannwg Gwent ........................................ 38

GGAT 118 Cael mynediad i Ddata sy'n deillio o Reoli Cynllunio Archaeolegol ........................................ 39

GGAT 129 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar De-ddwyrain Cymru (c AD1100-AD1750): Maenorau Sistersaidd Morgannwg a Gwent (GGAT 129) ........................................ 39

GGAT 130 De-ddwyrain Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf ........................................ 39

GGAT 131 Arolwg a dadansoddiad o Adeiladau Abaty Nedd ........................................ 39

**CONTRACTAU GWYDDONOL A ARIENNIR GAN CADW ........................................ 40**

**ADOLYGIAD ÔL-GLODDIO A CHYHOEDDIADAU ........................................ 40**

**PROSIECTAU POSIBL AR GYFER CYLLID WRTH GEFN A CHYNIGION AMLINELLOL AR GYFER PROSIECTAU 2014 – 2015 ........................................ 40**

ATODIAD 1 – Adolygiad o gyflawni Amcanion Llywodraeth Cymru ........................................ 41

**ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2012 – MAWRTH 2013**

**GGAT 1 Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol**

Mae gwasanaethau rheoli treftadaeth ranbarthol wedi cael eu hailddiffinio ac mae'r adroddiad ar gyfer 2012-13 yn adlewyrchu hyn.

*Gwybodaeth a chyngor i lywodraeth genedlaethol a lleol*

*1. Gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau gan Cadw gan gynnwys data i gefnogi prosiectau, yn enwedig y Rhaglen Gwella Cofrestru.*

Ni chafwyd yr un cais penodol am ddata gan Cadw yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, gwnaethom ddarparu gwybodaeth i gefnogi argymhellion cofrestru ar gyfer henebion cynhanesyddol ar Gomin Gelligaer, yn sgil y prosiect Celf Creigiau Cynhanesyddol a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

*2. Darparu gwybodaeth a chyngor am geisiadau Caniatâd Heneb Gofrestredig.*

Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i un ymgynghoriad o ran cais Caniatâd Heneb Gofrestredig (ogof Longhole).

*3. Ymweliadau gan staff curadurol â safleoedd Henebion Cofrestredig er mwyn cadarnhau adroddiadau am ddifrod a chynorthwyo wrth bennu ymatebion archaeolegol priodol, a wnaed ar gais Cadw.*

Ymwelwyd ag Ogof Deborah's Hole, De Gŵyr, yn dilyn adroddiadau am ddifrod gan aelod o'r cyhoedd i'r perchennog tir, sef Ymddiriedolaeth Natur Gorllewin Cymru. Aethpwyd i ymweld â safle maes â bryngaerau Hardings Down yn y Gŵyr yng nghwmni'r archwiliwr rhanbarthol, yn dilyn adroddiad gan aelod o'r cyhoedd am ddifrod.

*4. Ymweliadau gan staff curadurol â safleoedd Nodweddion Amgylcheddol Hanesyddol a safleoedd a ddiogelir anstatudol er mwyn darparu cyngor, cadarnhau adroddiadau o ddifrod a phennu ymatebion archaeolegol priodol, ar gais Cadw.*

Nid oedd angen gweithredu yn ystod y cyfnod adrodd.

*5. Ymateb i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ar gynigion sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.*

Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i lawer o ymgynghoriadau: *Cynnal Cymru Fyw* (Papur Gwyrdd) ar sut y mae diogelu'r amgylchedd naturiol yng Nghymru a ffurfio corff amgylchedd naturiol newydd yng Nghymru; cyngor ar Ynni Tonnau a Llanw; Gwasanaethau Cadwraeth Amgylchedd Hanesyddol Lleol yng Nghymru;, Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Bolisïau Amgylcheddol Hanesyddol Llywodraeth Cymru; Fframwaith Archaeoleg Cymunedol Cadw; Blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru.

*6. Cymorth mewn cysylltiad â Glastir, y tu hwnt i'r gweithredoedd a nodwyd eisoes o dan delerau'r Memorandwm Cytundeb sy'n bodoli rhwng yr Ymddiriedolaeth ac Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.*

Roedd staff yr ymddiriedolaeth wedi parhau i fynychu cyfarfodydd ag Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cymru i drafod y modd y mae'r cymorth ar gyfer elfennau amgylchedd hanesyddol Glastir yn cael ei gyflwyno.

Cytunwyd ar Femorandwm o Gyd-ddealltwriaeth a'i lofnodi, ynghyd â'r atodiadau sy'n sefydlu'r fframwaith ar gyfer darparu gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer amrywiol rannau'r cynllun yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd system ar waith i bennu a oedd difrod i asedau hanesyddol yn debygol o gael ei achosi gan waith sy'n cael cymorth grant o dan ACRES (cynllun effeithlonrwydd a lleihau carbon amaethyddol); cafwyd trafodaethau am y problemau posibl sy'n gynhenid i waith o'r fath ac arweiniodd hyn at sefydlu cyfnod prawf o ymgynghori ynghylch achosion unigol. Roedd y trafodaethau hefyd wedi'u hymestyn i gynnwys gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd Glastir.



***Ymweliad Maes ag Asedau Treftadaeth y Comisiwn Coedwigaeth***

Yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol hon, roedd staff yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ymdrin ag ymholiadau cychwynnol am nodweddion amgylchedd hanesyddol a wnaed gan ffermwyr a oedd yn ystyried dechrau cynllun Glastir.

Bu aelodau staff yr Ymddiriedolaeth hefyd i ddau ddiwrnod cyswllt gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym maes yr amgylchedd hanesyddol a staff o'r Comisiwn Coedwigaeth, ac roedd un o'r rhain yn ymweliad maes i archwilio materion yn ymwneud â chynaeafu a chadwraeth treftadaeth.

*7. Cyngor arbenigol i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol ar ystod o faterion yn ymwneud â threftadaeth.*

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gael ei chynrychioli ar Fforwm Gŵyr a Grŵp Treftadaeth Adeiledig Abertawe, fel ymgynghorydd archaeolegol i Ddinas a Sir Abertawe ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Yn y cyswllt hwn buom yn cynghori'r cyngor ar ailgyfeirio'r llwybr troed a'r llwybr ceffylau ar Ros Rhosili, a chyfarfod â chynrychiolwyr o'r cyngor, y gwasanaeth tân a'r heddlu ynglŷn â rheoli tiroedd comin trefol yn ardal Abertawe. Rydym hefyd yn aelod o Grŵp Ymgynghorol Castell a Pharc Gwledig Cil-y-coed, lle buom eleni yn cynghori Cyngor Sir Fynwy ar Gynlluniau Rheoli. Gwnaethom hefyd ddarparu cyngor i Gyngor Sir Fynwy ar gynnig lleol i ddadorchuddio'r llithrfa ar Lanfa Fryer, Tintern Parva. Rydym yn aelodau o'r Grŵp Llywio Hanes a Threftadaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r Fforwm Treftadaeth ym Merthyr Tudful, ac rydym yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd o'r ddau i ymdrin ag unrhyw faterion o arwyddocâd archaeolegol a darparu cyngor ar yr amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol. Rydym wedi bod mewn trafodaethau â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynglŷn ag estyniadau arfaethedig i'r fynwent yng Ngelligaer sy'n debygol o gyffwrdd â'r ardal o weithgarwch Rhufeinig. Yn Nhorfaen, bu staff yr Ymddiriedolaeth yng nghyfarfod yr Is-grŵp Treftadaeth ar ei newydd wedd ar gyfer Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd. Buom hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor i'r Swyddog Cadwraeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gadwraeth yr odynau calch yn Chwarel Dan y Darren.

*8. Ar gais, ymuno â Warden Henebion Maes Cadw ar ymweliad â Henebion Cofrestredig pan fo'r Warden Henebion Maes o'r farn bod perygl Iechyd a Diogelwch wrth ymgymryd â'r ymweliad ar ei ben ei hun.*

Nid oedd angen yr un ymweliad.

## *Gwybodaeth a chyngor yn deillio o brosiectau a ariennir gan Cadw*

*9. Cyngor dilynol a chymorth hirdymor ar gyfer prosiectau Cymru gyfan (eglwysi, arfordirol etc) a phrosiectau eraill yr Ymddiriedolaeth.*

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu cyngor yn seiliedig ar y Prosiect Eglwysi Hanesyddol trwy gyfrwng ei haelodaeth o Bwyllgor Ymgynghorol Esgobaethol Abertawe ac Aberhonddu. Yn ystod y flwyddyn aeth yr Ymgynghorydd Archaeolegol Esgobaethol i bump cyfarfod a rhoi sylwadau ar e-bost am geisiadau i'w hadolygu yn y chweched cyfarfod. Rhoddodd sylwadau hefyd ar gam brys a gynigiwyd gan archddiacon y tu hwnt i amserlen arferol y cyfarfodydd, a chymerodd ran mewn ymweliad safle. Bu staff yr Ymddiriedolaeth hefyd mewn cyfarfod i drafod y posibilrwydd o ffurfio ymddiriedolaeth eglwysi Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i gefnogi'r prosiectau Eglwysi Hanesyddol, Cerfluniaeth Eglwysig Ganoloesol Gynnar a Cherfluniaeth Eglwysig Ganoloesol trwy ei haelodaeth o Banel Ymgynghorol Cerfluniaeth Ganoloesol Cymru, a pharhau â gwaith prosiect amgylcheddau Caerllion trwy Bwyllgor Ymchwil Caerllion. Er nad oedd yn ofynnol rhoi cyngor manwl eleni, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fynychu cyfarfodydd Partneriaeth Aber Afon Hafren a Chyd-bwyllgor Ymgynghorol Aber Afon Hafren, er mwyn cynnal proffil yr amgylchedd hanesyddol yn rheolaeth strategol yr ardal hon.

*10. Gwybodaeth a chyngor sy'n gysylltiedig â'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru a materion eraill sy'n ymwneud â thirwedd, lle nad yw'r cymorth hwnnw ar gael o dan y Memorandwm o Gytundeb sy'n bodoli rhwng yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru - yr Is-adran Taliadau Gwledig a'r Ymddiriedolaeth a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.*

Ni chafwyd yr un cais am wybodaeth.

*11. Lledaenu'n ehangach canlyniadau'r prosiectau a ariennir gan Cadw gan gynnwys trwy wefan yr Ymddiriedolaeth ac 'Archwilio'.*

Cafodd gwybodaeth am y prosiectau a ariennir gan Cadw ei lledaenu trwy wefan yr Ymddiriedolaeth trwy lwytho i fyny ein Hadolygiad Hanner Blwyddyn 2012.

## *Gwybodaeth a chyngor ynghylch materion eraill sy'n ymwneud â chadwraeth a'r amgylchedd*

*12. Cyngor a, lle bo'n briodol, ymweliadau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau Ystadau Coed Cyhoeddus a Phreifat ac ymgynghoriadau eraill Comisiwn Coedwigaeth Cymru, gan gynnwys Cynlluniau Dylunio Coedwigaeth, sydd y tu hwnt i Glastir ac unrhyw gontract galw allan â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.*

Rhoddodd staff yr Ymddiriedolaeth gyngor ynglŷn â llawer o faterion y Comisiwn Coedwigaeth, gan gynnwys effaith ffordd newydd arfaethedig trwy'r coetir yn Fochriw ar yr amgylchedd hanesyddol, a chyngor yn dilyn difrod i fferm gan ddefnyddwyr llwybr beicio newydd ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yn Ynys Fawr.

*13. Ymdrin â cheisiadau ymgynghori/sgrinio sy'n gysylltiedig â Darpariaethau'r Gyfarwyddeb Asesu Effaith Amgylcheddol ar gyfer Tir heb ei Amaethu ac Ardaloedd Lled-naturiol.*

Yr unig weithred gysylltiedig oedd bod yr Ymddiriedolaeth wedi cysylltu â chontractwyr a oedd yn gweithio ar ddifa rhedyn ar rai o diroedd comin gogledd Abertawe, mewn ymgais i atal difrod i wrthgloddiau yno.

*14. Ymdrin ag ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (sydd bellach wedi'i hymestyn i gynnwys trafodaethau ar fynediad i'r arfordir).*

Ni chafwyd yr un ymgynghoriad.

*15. Cyngor curadurol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd morol, y tu hwnt i'r broses gynllunio.*

Mae gweithwyr rheoli treftadaeth yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymwneud â chynllun rheoli Bae Abertawe, ac wedi gweithredu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y dyddodion archaeolegol yn y bae a'u gofynion rheoli.

*16. Cysylltu â sefydliadau allanol a rhoi cyngor cychwynnol iddynt megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, etc. o ran materion sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol neu sy'n debygol o effeithio arno.*

Yn ystod y flwyddyn ariannol, daeth yr Ymddiriedolaeth yn bartner mewn cynllun peilot yn y Gŵyr sef '*Stop Waste in our Landscape'* a ariannwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i godi ymwybyddiaeth o'r problemau a achosir gan ddeunyddiau gwastraff, megis rwbel gwaith adeiladu a phridd diangen yn cael eu gwaredu'n ddifeddwl. Y partneriaid eraill oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (bellach Cyfoeth Naturiol Cymru), Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Tîm Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr Dinas a Sir Abertawe, Cymdeithas Gŵyr a Phrifysgol Abertawe.

*Gwybodaeth a chyngor i aelodau'r cyhoedd a grwpiau cymunedol*

| *Blwyddyn* | **Cyfanswm yr ymgynghoriadau a gyfeiriwyd at staff yr Ymddiriedolaeth* | *Masnachol (allanol)* | *Cyhoeddus (allanol)* | *Cyfanswm yr ymweliadau â'r Ymddiriedolaeth* |
|---:|---|---:|---:|---:|
| 2008—2009 | 241 | 144 | 97 | 46 |
| 2009—2010 | 188 allanol<br>190 mewnol | 64 | 124 | 35 |
| 2010—2011 | 155 allanol 81 mewnol | 65 | 90 | 13 |
| 2011—2012 | 176 allanol 76 mewnol | 72 | 104 | 19 |
| 2012—2013 | 188 allanol 73 mewnol | 75 | 113 | 13 |

*Ymholiadau Cofnod Amgylchedd Hanesyddol 2008—2013*

**Ac eithrio ymgynghoriadau ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Diwydiant Coedwigaeth a Chyfleustodau Cyhoeddus yr adroddir amdanynt mewn man arall.*

| *yddyn* | *weliadau â'r lalen gartref w.archwilio.or* | *welwyr unigryw dudalen gartref w.archwilio.org.* | *weliadau ongyrchol â dalen gartref* | *weliadau gryw â dalen gartref* | *lefnyddwyr chwilio' sy'n weld ag adran* |
|---|---|---|---|---|---|

| | k | | AT | AT | AT |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011—2012 | 4,923 | 2,601 | 2,640 | 1,371 | 48% |
| 2012—2013 | 6,626 | 3,258 | 2,641 | 1,265 | 20% |

*Ystadegau ar gyfer Gwefan Mynediad Cyhoeddus Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Archwilio 2011—2013*

*17. Darparu gwybodaeth am y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol i ymholwyr yn unol â Chanllawiau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Mynediad a Chodi Tâl.*

Darparwyd gwybodaeth a chyngor archaeolegol i unigolion a chymunedau yn y rhanbarth am eu prosiectau a'u diddordebau. Yn ystod y flwyddyn cafwyd 188 o ymholiadau allanol o'u cymharu â 176 y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd yn nifer gyffredinol yr ymgynghoriadau'n cael ei adlewyrchu yn nifer yr ymgynghoriadau masnachol a chyhoeddus ynghylch y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.

Mae ffigyrau ar gyfer Archwilio hefyd yn dangos cynnydd mewn ymweliadau i'r wefan: mae'r ystadegau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013 yn nodi y cafwyd dros 6,626 o ymweliadau â'r dudalen gartref (www.archwilio.org.uk). Roedd nifer yr ymweliadau unigryw yn 3,258, gan gadarnhau ymweliadau dro ar ôl tro gan ddefnyddwyr.

Mae'r ystadegau ar gyfer defnyddwyr yn mynd yn syth at dudalen chwilio Archwilio GGAT rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013 yn parhau yn debyg iawn i'r flwyddyn flaenorol, sy'n gyfanswm o 2,641 o ymweliadau a 1,265 o ymwelwyr unigryw. Mae cyfeiriadau o Dudalen Gartref Archwilio (www.archwilio.org.uk) gyfwerth â thua 50% ar gyfer y cyfnod hwn. Ar gyfradd 50% o draffig yn dod yn uniongyrchol o www.archwilio.org.uk mae hyn yn rhoi cymhareb o 20% o'r holl ddefnyddwyr sy'n ymweld â'r prif safle sydd yn eu tro yn mynd ymlaen i dudalen chwilio Archwilio GGAT.

*18. Darparu gwybodaeth a chyngor i ffermwyr a pherchnogion tir eraill lle nad yw'r cymorth ar waith trwy gyfrwng trefniant sy'n bodoli eisoes (e.e. Glastir, Coetiroedd Gwell i Gymru etc.)*

Cafwyd un galwad gan berchennog tir yn gofyn am gyngor ynglŷn ag olion a ddarganfuwyd yn Oxwich, Gŵyr.)

*19. Ymweliadau safle gan staff curadurol i gofnodi a darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Amgylchedd Hanesyddol, i gadarnhau adroddiadau o ddifrod a phennu ymatebion archaeolegol priodol i unrhyw faterion sy'n codi a gafwyd ar gais aelodau'r cyhoedd, grwpiau cymunedol neu sefydliadau allanol.*

Cafwyd ymweliad safle â Llandŵ yn dilyn datgymalu maes yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn gwerthuso'r difrod a achoswyd, ymweliad â Chwm Nash i gofnodi claddedigaeth bellach a oedd yn erydu allan o'r clogwyn, ymweliad â Phwll Glo Llan, Gwaelod y Garth, i asesu cyflwr y geuffordd a oedd yn agored ac olion gwrthgloddiau, ymweliad â Drenewydd y Notais i edrych ar yr olion strwythurol a ddarganfuwyd gan y perchennog yng ngardd ei gartref. Yn Abertawe, buom yn gweithio gyda'r adran barciau yn dilyn adroddiad gan aelod o'r cyhoedd am ddifrod i ffynnon hanesyddol yn ardal Treforys.

## *Cynigion Penodol*

Yn ogystal â'r gwaith craidd, cyflawnwyd nifer o gynigion penodol.

***Mynychu dau seminar ar Adeileddau Milwrol yr Ugeinfed Ganrif.***

Aethpwyd i'r ddau gyfarfod.

*Trefnu a chynnal y 13eg Fforwm Treftadaeth Rhanbarthol gyda Chynrychiolwyr o'r Awdurdodau Unedol*

Roedd nifer dda yn bresennol yn y fforwm treftadaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol heblaw un yn Ne Cymru. Cafodd ei gynnal eleni yn Swyddfa Cofnodion Gwent yng Nglyn Ebwy, dan ofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Daeth sesiwn adrodd y bore i ben â thrafodaeth helaeth ar y papur a gylchredwyd yn ddiweddar ar y newidiadau posibl i wasanaethau cyngor ar dreftadaeth mewn llywodraeth leol a allai gael eu rhoi ar waith yn rhan o'r bil treftadaeth sydd ar ddod. Cafwyd taith wedi'i thywys o amgylch yr archifau yn ystod y prynhawn.

*Darparu cyngor ar ddatblygiad y cynllun amaeth-amgylchedd Glastir.*

Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys uchod (gweler 6).

## GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Rhanbarthol a GGAT 92 Cymorth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol

*Ystadegau Cynllunio 2012—2013 (gweler Atodiad 2)*

Mae'r gwasanaethau cynllunio archaeolegol a ddarperir ar ran Cadw yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth yn y lle cyntaf asesu holl geisiadau cynllunio'r rhanbarth a hysbysu'r awdurdodau cynllunio am gyfyngiadau archaeolegol ar y cynigion, gan roi gwybodaeth ac argymhellion penodol am y camau gorau i'w cymryd i ddiogelu mannau o ddiddordeb archaeolegol ac ar yr un pryd galluogi datblygiadau a ganiateir. Wedyn, a chyda'r adnoddau a ddarparwyd ar y cyd gan y deuddeg awdurdod lleol, darparodd yr Adran Cynllunio Archaeolegol wasanaethau manwl pellach, megis darparu briffiau archaeolegol ar gyfer asesiadau cyn-penderfynu, cymeradwyo manylebau manwl a gyflwynwyd gan ddatblygwyr a monitro gwaith o'r dechreuad a'r gwaith maes hyd at gynhyrchu'r adroddiad terfynol.

Mae ystadegau manwl 2012-2013 o ran yr ymatebion i geisiadau cynllunio a wnaed gan yr Adran Cynllunio Archaeolegol, sy'n amrywio o argymell asesiadau desg a gwerthusiadau maes ymwthiol yn y cyfnod cyn penderfynu ar geisiadau cynllunio hyd at atodi amodau archaeolegol priodol ar ganiatâd cynllunio, wedi'u hatodi yn Atodiad (2) yr adolygiad hwn.

Yn 2011-2012 cafwyd ychydig o ostyngiad (4.32%) yn nifer y ceisiadau a gofrestrwyd gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Ne-ddwyrain Cymru, arafodd y gostyngiad hwn yn 2012-2013 i 0.9%. Mewn ffigyrau roedd nifer y ceisiadau a gofrestrwyd yn 2011-2012, sef 13,660, wedi gostwng 123 i 13,537 yn 2012-2013. Fodd bynnag ni chafwyd dim gostyngiad yn nifer y ceisiadau am gyngor manwl gan y gwasanaeth (1,121 o geisiadau ar gyfer y ddwy flynedd). Roedd y cyngor manwl hwn yn cynnwys cynnydd o 5 cais ar ôl i ni wrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ar y sail y byddai'n cael effaith annerbyniol ar yr adnodd archaeolegol a'r un nifer (81) o geisiadau lle dywedasom wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai angen i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar effaith y datblygiad arfaethedig ar yr adnodd archaeolegol cyn penderfynu ar y cais cynllunio. Fodd bynnag, roedd nifer yr achosion lle gwnaethom argymell y dylid atodi wrth y caniatâd cynllunio amodau sy'n nodi'r gwaith archaeolegol y mae'n rhaid ymgymryd ag ef wedi gostwng ychydig (342-323). Gellir rhannu'r amodau hyn yn dri math, y rheini lle mae'n ofynnol cynnal raglenni ymchwil archaeolegol (megis cloddiadau, briffiau gwylio dwys) y cafwyd 124 (121) ohonynt; y rheini lle mae'n ofynnol cyflawni briff gwylio archaeolegol yn ystod y datblygiad 130 (125); a'r rheini lle mae'n ofynnol cofnodi adeiladau ac adeileddau 69 (96). Mae'r adran hon hefyd wedi bod yn rhan o ddwy apêl cynllunio yn darparu gwybodaeth a chyngor ysgrifenedig i Arolygaeth Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### *Asesiadau Sgrinio a Chwmpasu Effaith Amgylcheddol*

Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Lloegr a Chymru) 1999 i ddatblygwyr ymgynghori ag Awdurdodau Cynllunio Lleol ynglŷn ag a oes angen cyflwyno Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu beidio gyda chais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr (sgrinio). Os pennir bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol yna gallant ofyn i'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr Asesiad gael eu hamlinellu gan yr Awdurdod Cynllunio

Lleol a chytuno ar fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth (cwmpasu). Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi adrodd y bu cynnydd sylweddol yn nifer y datblygiadau graddfa fawr sy'n cael eu cynnig yn Ne-ddwyrain Cymru yn enwedig o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys, tyrbinau gwynt, gweithfeydd Treulio Anaerobig a systemau ffotofoltäig mawr ac roedd hyn eto wedi cynyddu'n sylweddol yn 2012-13. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom roi sylwadau ar 77 o geisiadau sgrinio (49 y llynedd) a 26 o ymgynghoriadau cwmpasu (17 y llynedd).

*Effeithiau datblygiadau mawr*

Mae nifer o brosiectau datblygu cymhleth ar raddfa fawr yn parhau i gychwyn yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae'r gwasanaeth yn parhau i roi cryn dipyn o amser ac ymdrech i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ystyried yn ofalus yn ystod y broses gynllunio a bod mesurau lliniaru yn cynnwys cadwraeth *in situ* a chloddio yn cael eu cynnwys yn y datblygiadau hyn. Eleni mae'r datblygiadau hyn wedi cynnwys, yn benodol, rhagor o gloddio yn Nhŷ Vulcan ym Merthyr Tudful a gofnododd olion bragdy a oedd yn cael ei bweru gan ddŵr, ac Ysgol Mynwy lle ymchwiliwyd i adeiladau Rhufeinig a Chanoloesol.

### *Cyfleustodau*

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddarparu cyngor i gwmnïau cyfleustodau ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar effaith eu gwaith ar adnodd archaeolegol. Cafodd nifer debyg o ymgynghoriadau eu cynnal eleni, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda 299 o gynigion yn cael eu hanfon atom. Yn dilyn ein cyngor, arweiniodd monitro archaeolegol o'r datblygiadau llinellol hyn at gofnodi llawer o fuddiannau amgylchedd hanesyddol.

### *Cynlluniau Datblygu Lleol*

Yn ystod y flwyddyn mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu mewnbwn sylweddol i ddatblygiad y cynllun newydd hwn, gan fynd i gyfarfodydd i drafod cynigion a rhoi cyngor ar effaith y datblygiad ar yr adnodd archaeolegol o ran y tir a gynigiwyd i'w dyrannu yn y cynlluniau. Yn Ne-ddwyrain Cymru mae pedwar Cynllun Datblygu Lleol bellach wedi'u mabwysiadau ac mae gwaith wedi parhau ar ddatblygu'r wyth Cynllun Datblygu Lleol arall yn Ne Cymru ac mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu lefel debyg o fewnbwn i'r rheini a gwblhawyd eisoes.

## GGAT 100 Allgymorth Rhanbarthol

Nod sefydlu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent oedd gwella addysg y cyhoedd o ran archaeoleg. Nodir hyn yn ein Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu ac mae wedi ysgogi gwaith yr Ymddiriedolaeth ers ei sefydlu ym 1976. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rôl weithgar wrth ddarparu cyfleoedd amrywiol i'r cyhoedd ymgysylltu ag archaeoleg, y mae rhai ohonynt yn cael eu cefnogi gan Cadw.

Cadwyd ein cynigion am brosiectau'n ddigon hyblyg er mwyn i ni allu cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr yn ein darpariaeth. Mae'r cofnodion o dan brif benawdau ein rhaglen allgymorth, ac yn tynnu sylw at nodau penodol y flwyddyn yn yr adran briodol.

*Presenoldeb archaeolegol mewn digwyddiadau treftadaeth, diwylliannol ac amgylcheddol, yn ymgorffori ein nodau penodol fel a ganlyn:*

*Trefnu digwyddiadau yn rhan o Ŵyl Archaeoleg Prydain Cyngor Archaeoleg Prydain 2011; cydweithio â Cadw yn ystod digwyddiad neu ddigwyddiadau ar gyfer Gŵyl Archaeoleg Prydain / Wythnos Genedlaethol Dysgu Gydol Oes, yn Abaty Nedd; mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llandŵ, Bro Morgannwg. Bydd ein stondin yn cynnwys ymgynghoriadau ynghylch y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol trwy gyfrwng Archwilio, arddangosiadau a gweithgareddau.*

Aeth staff yr Ymddiriedolaeth i naw digwyddiad yn 2012-2013 o dan nawdd y prosiect Allgymorth Rhanbarthol; un o'r rhain oedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd ein prif ddigwyddiad yn Amgueddfa Abertawe yn rhan o Ŵyl Archaeoleg Prydain. Y sefydliadau a oedd yn bresennol yn y ffair dreftadaeth oedd Clwb Archaeolegwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun, Cyfeillion Rhaeadrau Aberdulais, Cyfeillion Hen Iard Eglwys Llandeilo Talybont, Cyfeillion Castell Ystumllwynarth, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Amgueddfa Glowyr De Cymru, Clwb Datgelu Metel Abertawe (gan gynnwys casgliad fflintiau un aelod), tri grŵp o Brifysgol Abertawe (Cysylltu Cymunedau, Dysgu Gydol Oes a'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil Canoloesol a Modern Cynnar ym Mhrifysgol Abertawe), Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg a Hanes Teuluol Gorllewin Morgannwg. Yn ogystal â'r sgwrs ar 'Gweithio gyda Time Team' a roddwyd gan yr Ymddiriedolaeth, darparodd Prifysgol Abertawe ddau siaradwr, un o Brifysgol Abertawe ar Abaty Nedd, a'r llall o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar y prosiect '*Britain from Above'*. Roedd arddangosiadau, gweithdai a hanes byw yn cynnwys stondin gwydr lliw traddodiadol Prifysgol Fetropolitan Abertawe, arddangosiadau ar adlunio wynebau, trapiau pysgod cynhanesyddol, coginio Rhufeinig a darnau arian canoloesol, ac ail-greu gan Feibion y Ddraig a Gwerin y Gŵyr. Roedd hefyd digwyddiadau i blant gan gynnwys peintio wynebau yn seiliedig ar fotiffau'r Oes Haearn, a ffug gloddio poblogaidd iawn.

Bu'r Ymddiriedolaeth hefyd yn bresennol mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gyngor Dinas Abertawe yng nghastell Ystumllwynarth, gan ddarparu gweithgareddau i blant a gwybodaeth am y cloddio cymunedol yn 2009-2010. Digwyddiad newydd gan yr Ŵyl Archaeoleg oedd 'Byw yng Ngil-y-coed yn yr Oes Efydd', a drefnwyd gan yr Ymddiriedolaeth mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Fynwy, a oedd hefyd yn rhan o'i rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer gwyliau'r ysgol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gloddio llyn castell Cil-y-coed yn y 1980au yn ogystal â digwyddiadau i blant. Hefyd yn ystod Gŵyl Archaeoleg Prydain bu'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnwyd gan Cadw yn Abaty Nedd, gan ddarparu pabell â digwyddiadau i blant ac ymgynghoriadau ynghylch y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, a chyfres o deithiau cerdded dan arweiniad o gwmpas yr Abaty ei hun ac ymweliad â gweithfeydd haearn Abaty Nedd a'r gaer Rufeinig. Gweithgareddau eraill a ddarparwyd yn ystod y pythefnos oedd dwy daith gerdded arall.

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, roedd stondin yr Ymddiriedolaeth gerllaw sefydliadau treftadaeth eraill (Cadw, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru). Roedd hyn yn creu ymdeimlad o hunaniaeth gyffredin a phwrpas, ond hefyd yn helpu i hwyluso ymgysylltu â'r cyhoedd trwy raglen o ddigwyddiadau ar y cyd. Roedd digwyddiadau penodol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys gwneud dyblygiadau o ganfyddiadau cynhanesyddol, arddangosfa o fywyd canoloesol (gyda Gwerin y Gŵyr), arddangosiadau o greu llwybrau a thrapiau pysgod o'r oes efydd, arddangosiadau o goginio Rhufeinig. Roedd hefyd arddangosiadau parhaol o waith diweddar a mynediad byw i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, a theithiau cerdded tywysedig amgylch o archaeoleg y maes yn Llandŵ.




***Rhan o'r Rhes Dreftadaeth, Eisteddfod Genedlaethol Llandŵ***

Bu'r staff hefyd yn bresennol mewn cyfres o ddigwyddiadau eraill: Gŵyl Wanwyn Pontardawe; Hanes Lleol... Byw!; Prynhawn Rhufeinig yng Ngelligaer; Ymerodraeth: Sioe Rufeinig. Ar gyfer y ddau ddigwyddiad cyntaf, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi rhannu stondin â Phrifysgol Abertawe.

Cyfanswm nifer y bobl a gyrhaeddwyd trwy'r digwyddiadau a ariannwyd gan y rhaglen allgymorth oedd tua 2,300 (ac eithrio teithiau cerdded lle mae'r ffigyrau wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol).












Outreach 2012—2013 Shows, walks and talks






***Allgymorth 2012—2013 Sioeau, teithiau cerdded a sgyrsiau***

*Sgyrsiau a theithiau tywysedig cerdded, yn cynnwys ein nod penodol o:*

*Weithio gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ffrindiau Parc Margam, Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Canolfan Groeso'r Mwmbwls a chyrff eraill i lunio rhaglen o deithiau cerdded.*

Trefnwyd rhaglen lawn o sgyrsiau a theithiau cerdded tywysedig ar gyfer y flwyddyn. Mae mwyafrif y sgyrsiau'n cael eu cynnal yn y gaeaf a'r teithiau cerdded yn yr haf.

O blith yr un deg saith o sgyrsiau a roddwyd i gymdeithasau ac aelodau eraill o'r cyhoedd gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn ariannol, ariannwyd un ar ddeg trwy'r prosiect allgymorth. Roedd y cynulleidfaoedd yn cynnwys cymdeithasau hanes lleol, grwpiau myfyrwyr, grwpiau eglwysi ac elusennau a changhennau Prifysgol y Drydedd Oes.

Roedd un deg pedwar o blith un ar hugain o'r teithiau cerdded a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'u hariannu trwy'r rhaglen allgymorth ranbarthol (rhoddwyd y mwyafrif o'r gweddill yn rhan o brosiect Arfordir). Roedd ein partneriaid ar gyfer y rhain yn cynnwys Cyfeillion Tŷ St John, Ffrindiau Parc Margam.

Canolfan Groeso'r Mwmbwls a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cafodd rhai eu cynnal mewn cysylltiad â gwyliau megis Gŵyl Geoparc Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Gŵyl Archaeoleg Prydain, Gŵyl Gerdded y Gŵyr a'r ŵyl Love2Walk.

(i) Teithiau cerdded

Nifer y teithiau cerdded yn y rhaglen allgymorth = 16

Nifer y cerddwyr ar gyfer yr holl deithiau cerdded allgymorth = 248

(ii) Sgyrsiau

Sgyrsiau yn y rhaglen allgymorth = 11

Nifer a oedd yn bresennol = 388

*Arddangosiadau a thaflenni, gan gynnwys ein nodau sylfaenol o:*

*Adolygu ac ailargraffu arddangosfa Caer Rufeinig Castell-nedd yn unol â chanllawiau hygyrchedd newydd, i gynnwys canfyddiadau ymgyrch cloddiadau 2011-2012; parhau i weithio gydag Esgobaeth Llandaf, Mynwy, ac Abertawe ac Aberhonddu, a chyda cysylltiadau lleol eraill a'u helpu i gyflwyno i'r cyhoedd treftadaeth bwysig eglwysi hanesyddol yn ein hardal, trwy gynhyrchu cyfres o daflenni yn darparu gwybodaeth am eglwysi sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd; Dylunio a chyhoeddi ar y we taflenni am archaeoleg yr Ail Ryfel Byd ym Mro Morgannwg, a pharatoi copïau wedi'u hargraffu'n barod ar gyfer yr Eisteddfod. Mae'r cynllun hwn mewn ymateb i alw cryf gan bobl leol am ryw fath o ganllaw.*

Darparwyd arddangosiadau mewn naw digwyddiad yn rhan o stondin yr Ymddiriedolaeth.

Adolygwyd ein harddangosfa am y gaer Rufeinig yng Nghastell-nedd er mwyn cydymffurfio â'r safonau gwelededd sydd bellach ar waith, a chafodd ei harddangos yn yr Ŵyl Dreftadaeth, Celf a Chrefft yn Abaty Nedd.

Darparwyd drafft o daflen ar eglwysi hanesyddol y Gŵyr i'r pwyllgor deoniaeth perthnasol a oedd yn ystyried yr opsiwn o gyhoeddi un i gefnogi twristiaeth eglwysi, ond penderfynodd y pwyllgor symud ymlaen â'r peth ymhellach.

Yn hytrach na chynhyrchu taith gerdded hunan dywysedig o gwmpas safleoedd yr Ail Ryfel Byd yn ardal maes yr Eisteddfod, aeth staff yr Ymddiriedolaeth ati i dywys dwy daith gerdded eu hunain.

*Allgymorth trwy wefan GGAT, gan gynnwys ein gôl benodol o:*

*Ddiweddaru gwybodaeth a ddarperir ar wefan yr Ymddiriedolaeth.*

Yn ogystal â diweddaru tudalennau'n gyffredinol, ychwanegwyd y deunydd newydd canlynol at y wefan: pum eitem newyddion (ar www.ggat.org.uk); deunaw eitem blog newyddion (ar bump blog); chwech-deg chwech o drydarau; naw diweddariad ar Linkedin; llwythwyd i fyny y daflen 'Gweithdy Archaeolegol GGAT' i'r dudalen gymunedol; calendr digwyddiadau ar gyfer haf 2012, oriel luniau Llong Casnewydd.

Yn ogystal, lluniwyd ac ychwanegwyd polisïau cwcis at dudalennau gwefannau'r Ymddiriedolaeth ac 'Archwilio'. Hefyd yn ystod 2012-13 dechreuwyd ar y gwaith o ailddylunio'r wefan yn llwyr.

Rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, cafwyd 2,641 o ymweliadau i dudalennau'r Ymddiriedolaeth, sy'n cynrychioli 1,265 o ymwelwyr unigryw.

*Archaeoleg gymunedol, yn cynnwys ein gôl benodol o:*

*Ddarparu cyngor ymateb cychwynnol i ymholiadau am brosiectau archaeolegol cymunedol posibl a fydd yn cael eu cyflawni trwy gyfrwng ein swydd archaeolegydd cymunedol a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.*

Cafwyd hwb mawr i gynlluniau archaeoleg cymunedol yr Ymddiriedolaeth gan gynllun a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri sef Sgiliau ar gyfer y Dyfodol - Lleoliadau Hyfforddiant Archaeoleg Cymunedol a gydlynwyd gan Gyngor Archaeoleg Prydain, ac ymgymerwyd â'r lleoliad cyntaf ym mis Ebrill 2011. Ymgymerwyd â'r ail leoliad yn ystod blwyddyn ariannol 2012-2013, ac yn y cyfnod hwn recriwtiwyd ar gyfer trydydd lleoliad i weithio'n benodol gydag oedolion. Bydd y lleoliad hwn yn parhau hyd fis Hydref 2014.

Yn ystod y flwyddyn cawsom gyfarfodydd â'r cyrff canlynol o ran prosiectau cymunedol posibl: y Comisiwn Coedwigaeth ac Ymddiriedolaeth Coedwig Caerffili o ran Coedwig Caerffili, Cyngor Sir Caerdydd o ran y mwnt yn Morganstown, trigolion Gwaelod y Garth o ran Pwll Glo Llan, a chyda pherchennog newydd Neuadd Llanrhymni gynt sy'n chwilio am ffyrdd i'w datblygu yn adnodd cymunedol. Paratowyd cynigion prosiect ar gyfer Coedwig Caerffili, Neuadd Llanrhymni a mwnt Morganstown. Datblygwyd cwrs byr ar gyfer Pwll Glo Llan yn yr ysgol gynradd leol.

*Addysg*

Bu saith disgybl ysgol ar leoliadau profiad gwaith gyda'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn. Bu myfyriwr Americanaidd hefyd ar leoliad gennym a oedd ar daith gyfnewid ym Mhrifysgol Abertawe, ac ymgymerodd â'r lleoliad yn rhan o ofynion ei gwrs. Rhoddwyd dwy ddarlith i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru Casnewydd.

## GGAT 103 Arfordir Morgannwg-Gwent

Dyluniwyd Prosiect Arfordir i wella'r cofnod archaeolegol ar gyfer yr arfordir, trwy fonitro cyflwr ac effaith erydu ar safleoedd ar hyd y morlin, ac i ymgysylltu cymunedau a gwirfoddolwyr lleol â'u treftadaeth arfordirol er mwyn hwyluso monitro cynaliadwy a hirdymor.



***Clwydi Wystrys, Brynmill, Bae Abertawe***

Roedd y ddwy flynedd cyntaf o waith (2010—2011 a 2011—2012) wedi canolbwyntio ar forlin y Gŵyr a Bae Abertawe hyd at aber Afon Ogwr. Cafodd yr ardal astudio ei hymestyn i Fro Morgannwg yn ystod y drydedd flwyddyn o waith (2012-2013).

Yn ystod trydedd flwyddyn y prosiect, roedd y gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio ar ardaloedd astudio'r ddwy flynedd cyntaf yn parhau i gael cymorth, wrth i wirfoddolwyr newydd gael eu recriwtio trwy gysylltu â grwpiau hanes ac archaeolegol cymunedol, hysbysebu'r prosiect a rhoi cyflwyniadau'n lleol. Yn dilyn y broses o recriwtio gwirfoddolwyr, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi a theithiau cerdded wedi'u tywys er mwyn darparu sgiliau i'r gwirfoddolwyr ar gyfer cofnodi safleoedd. Yn ogystal â chofnodi gwaith maes ymarferol, darparwyd hyfforddiant hefyd ar sut i archwilio cofnodion archaeolegol. Roedd y sesiwn hon yn codi ymwybyddiaeth y gwirfoddolwyr o ba adnoddau sydd ar gael ac ar yr un pryd yn rhoi amlinelliad o'r safleoedd archaeolegol sydd eisoes wedi'u cofnodi. Roedd yr hyfforddiant hefyd yn tynnu sylw'r gwirfoddolwr at y cyfraniad y mae eu gwaith yn ei wneud trwy fewnbynnu gwybodaeth yn ôl i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Roedd eu gwaith annibynnol hefyd yn cael ei gefnogi gan staff prosiect a oedd yn ymgymryd ag ymweliadau safle gyda grwpiau yn yr ardal astudio gan arwain at gofnodi llawer o safleoedd newydd.

Mae'r safleoedd o ddiddordeb penodol a gofnodwyd yn cynnwys: Rocket House, Cwm Nash; Clwydi Wystrys yn Brynmill; Coedwig Foddedig yn Whiteford Sands, Gogledd Gŵyr; cyrn Ceirw Coch, Bae Abertawe.

Ymgymerwyd hefyd â gwaith i greu dogfennau canllaw ffurfiol ar sut i dynnu ffotograffau a defnyddio cyfryngau cymdeithasu. Adolygwyd y ffurflen diweddaru cyflwr safle a chynhyrchwyd hefyd ganllawiau ffurfiol ar sut i lenwi'r ffurflen. Lluniwyd ffurflen arbenigol ar gyfer cofnodi coedwigoedd boddedig a mawn, a dosbarthwyd y dogfennau hyn i holl wirfoddolwyr y prosiect, ac i Ymddiriedolaethau Archaeolegol eraill yng Nghymru a oedd yn ymgymryd â gwaith Arfordir.



***Grŵp gwirfoddol yn ystod hyfforddiant adnabod henebion***


***yng Ngwersyll Nash Point, PRN 00400s***

Mae canllawiau ffurfiol hefyd wedi'u cynhyrchu ar ffotograffiaeth ac maent yn darparu gwybodaeth am yr hyn y dylid ei gynnwys wrth dynnu ffotograffau a sut y dylid llenwi'r gofrestr ffotograffau a chynhwyswyd enghreifftiau o ffotograffau a dynnwyd yn rhan o'r prosiect.

Mae canllawiau ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasu hefyd wedi'u llunio ac maent yn cynnwys gwybodaeth am y mathau gwahanol o wefannau/rhaglenni sy'n cael eu defnyddio a sut i ddefnyddio pob gwefan/rhaglen. Trwy ddarparu'r wybodaeth hon a gwneud cyfryngau cymdeithasu yn llai brawychus y gobaith yw y bydd cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr sy'n defnyddio'r gwefannau hyn.

Crëwyd tudalen Facebook (https://www.facebook.com/pages/Arfordir-Glamorgan-Gwent-Archaeological-Trust/340497112735726?ref=hl) ac mae'r gwirfoddolwyr sy'n defnyddio Facebook wedi cael eu gwahodd i hoffi'r dudalen. Defnyddiwyd y dudalen i hysbysebu teithiau cerdded, postio ffotograffau, a hefyd hysbysebu prosiect Cadw arall sy'n cael ei ariannu gan grant yn ardal Cwm Nash. Mae'r ymateb i'r dudalen hon wedi bod yn gadarnhaol ac mae cryn dipyn o ddiddordeb wedi'i ddangos gan ddefnyddwyr yn yr wybodaeth a roddwyd arni. Mae cyfrif Twitter (https://twitter.com/GGATArfordir) ar gyfer y prosiect yn parhau i gael ei ddefnyddio ac mae'n parhau i ddenu dilynwyr newydd, ar hyn o bryd mae dros 140 o ddilynwyr, mae hyn wedi cynyddu o'r 50 o ddilynwyr a gofnodwyd y llynedd; mae'r dilynwyr yn cynnwys gwirfoddolwyr prosiect, unigolion a chanddynt ddiddordeb, cyrff treftadaeth eraill a grwpiau cymunedol. Mae blog y prosiect WordPress wedi'i ddiweddaru a gosodwyd cefndir thema newydd. Defnyddiwyd y blog i hyrwyddo gwaith maes a gyflawnwyd yn rhan o'r hyfforddiant; mae ffotograffau hefyd wedi'u llwytho i fyny yn tynnu sylw at ddarganfyddiadau cyffrous newydd ac i godi proffil y gwaith prosiect. Ein bwriad yw gwella'r cyfrif Flickr a'r wefan ficro y flwyddyn nesaf.

Mae'r effaith ar y cyfranogwyr o ran dysgu cyffredinol a chymdeithasol wedi'i mesur. Bu'r adborth yn gadarnhaol, â llawer yn dweud cymaint yr oeddent wedi mwynhau'r hyfforddiant ar gyfer y prosiect a byddent yn mwynhau'r cyfle i gymryd rhan mewn rhagor o brosiectau cymunedol gan yr Ymddiriedolaeth. Mae rhai gwirfoddolwyr hefyd wedi gofyn am ragor o hyfforddiant o ran adnabod henebion yn ogystal â rhagor o ddigwyddiadau ar y penwythnos a bydd y sylwadau hyn yn cael sylw yn ystod rhediad y prosiect.




***Siart Bar yn dangos canlyniadau GLO gan gyfranogwyr Arfordir Blwyddyn 3***

## GGAT 112 Meysydd Awyr yr Ail Ryfel Byd yn Ne-ddwyrain Cymru

Lluniwyd prosiect Meysydd Awyr Ail Ryfel Byd De-ddwyrain Cymru er mwyn asesu cyflwr presennol cadwraeth y meysydd awyr milwrol sydd wedi goroesi yn Ne-ddwyrain Cymru o'r Ail Ryfel Byd hyd at ddiwedd y Rhyfel Oer ym 1989. Nod y prosiect oedd rhoi gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r olion hyn gan sicrhau mwy o werthfawrogiad o'u pwysigrwydd fel canolbwyntiau parhaus ar dirwedd De Cymru. Gobeithir y bydd modd defnyddio'r cynnydd hwn mewn ymwybyddiaeth a mesurau gwarchod fel sbardun ar gyfer adfywio sensitif ac i roi canolbwynt i'r gymuned. Roedd y prosiect yn targedu'r wyth prif faes awyr yn ardal yr Ymddiriedolaeth, a ddewiswyd oherwydd goroesiad posibl nodweddion ac adeileddau cynradd ac eilaidd. Y meysydd awyr hyn yw:

- ❑........................................................................................................................................................•Cwrs Rasio Casgwent (Tir Glanio Lloeren Rhif 7)
- •RAF Comin Fairwood
- •RAF Llandŵ
- •RAF Sain Tathan
- •RAF Caerdydd, Defnydd Milwrol o Rostir Pengam
- •RAF Y Rhws
- •Saint-y-Brid (Tir Glanio Lloeren Rhif 6)
- •RAF Stormy Down / Porthcawl

Y prif ffocws ar gyfer Blwyddyn 1 oedd y maes hedfan a'r ardaloedd technegol, ar gyfer Blwyddyn 2 roedd yr ardal astudio wedi'i hymestyn i edrych ar adeileddau a nodweddion cefnwledydd y meysydd awyr (at ddibenion y prosiect, diffiniwyd y cefnwledydd fel y parth y tu allan i galon y maes awyr canolog). Roedd cefnwledydd y meysydd awyr yn dirweddau cymhleth a phrysur gydag ystod o nodweddion datblygedig, megis; safleoedd gynau gwrthawyrennol Trwm/Ysgafn, hudwyr bomiau, llwyfannau gwrthawyrennol, rhwystrau atal glanio, amddiffynfeydd perimedr, unedau salwch yr RAF, cynorthwyon llywio, cyfathrebiadau, adeiladau rheoli golau fflêr, storfa tanwydd wrth gefn, ac


adrannau llongau morol achub o’r môr a’r awyr yr RAF, ynghyd â safleoedd llety gwasgaredig a drefnwyd yn ôl rhyw a gradd yr unigolyn.

Aseswyd pob safle gan ddefnyddio ffynonellau dogfennol cyn ymgymryd ag ymweliadau safle er mwyn datblygu dealltwriaeth o’r safle ac i bennu blaenoriaethau’r gwaith maes. Edrychwyd ar fapiau, cynlluniau a ffotograffau o’r awyr a chynhyrchwyd atchweliadau map ar gyfer pob safle. Cynhyrchwyd cronfa ddata a lluniwyd data pwynt newydd a data seiliedig ar bolygonau o ganlyniad i’r ymchwil. Cafodd yr wybodaeth hon ei bwydo yn ôl i’r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol er mwyn cyfrannu at ein dealltwriaeth o natur dymhestlog yr 20fed ganrif trwy adeileddau milwrol sydd wedi goroesi, ac mae’n rhoi sail ar gyfer rheoli treftadaeth a rheoli datblygu.





***Ochr ogleddol ‘pill box’ 04468s a mynediad i safle lloches suddedig ‘Q’ wrth Hudwr Marcroes***




***Parthu Asedau Treftadaeth yr Ail Ryfel Byd Amgylchedd Maes Awyr Llandŵ***

Mae cynllun gwasgaredig yr adeiladau a'r adeileddau dros dro sydd i ran helaeth o Safleoedd Gwasgaru Meysydd Awyr Milwrol De Cymru yn dasg anodd ar gyfer cadwraeth. Mae'r mwyafrif o'r adeileddau wedi dadfeilio cryn dipyn ac mae eraill yn goroesi mewn cyflwr amrywiol o ran cyflawnrwydd, fel arfer yn cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddol yn ystod y blynyddoedd diweddar, wrth i eraill oroesi fel olion yn unig, yn gysgodion o'r hyn a fuont. Mewn egwyddor dylem anelu at ddiogelu rhai enghreifftiau o'r mathau hyn o feysydd awyr, fodd bynnag, mae'n anodd sicrhau cydbwysedd. Fel y nodwyd eisoes mae llawer o'r adeiladau mewn cyflwr gwael, ond hefyd maent yn fathau safonol y gellir dod o hyd iddynt ar yr holl safleoedd gwasgaru nid yn unig yng Nghymru ond y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Pe bai un maes awyr a'i safleoedd cysylltiedig yn gorfod cael ei ddewis i'w gadw o blith y rheini yr ymwelwyd â hwy ar gyfer y prosiect hwn, mae'n sicr mai RAF Llandŵ fyddai hwnnw. Mae maint a safon yr ardaloedd cymunedol a lletya gwasgaredig yn gyffredinol wael, mae y mwyafrif o'r adeiladau wedi'u gwaredu neu'u trawsnewid, fodd bynnag, yr hyn sy'n gwneud adeiladau ac adeileddau RAF Llandŵ mor arbennig, heblaw'r rhai unigol amlwg megis y tŵr rheoli, a'r siediau awyrennau, yw cyflawnrwydd rhyfeddol y safle, gydag ychydig o dan hanner cyfanswm cyflenwad yr adeiladau yn parhau i fodoli. Mae hefyd angen i ni ystyried y rhedfeydd a llwybr y perimedr, sydd hefyd yn gyflawn ac yn enghreifftiau arbennig o redfeydd tarmac cynnar. Y drydedd agwedd bwysig yw cyflawnrwydd y llochesau cyrch awyr

uwchlaw'r ddaear sy'n cynrychioli hanner yn unig o gyfanswm y nifer a adeiladwyd yn y maes awyr, ond mae hyn yn eithaf uchel wrth gymharu â safleoedd meysydd awyr eraill. Dylid nodi bod goroesiad parhaus nodweddion o'r fath yn beryglus, oherwydd mae'r union ffactorau sydd wedi cynorthwyo eu goroesiad, h.y. cael eu trawsnewid yn ystadau diwydiannol masnachol a defnydd amaethyddol, hefyd yn dwyn pwysau ailddefnyddio, ailddatblygu a gwaredu.

* Brasamcanion yw'r cyfansymiau'n unig. Mae nifer yr adeiledddau fesul maes awyr wedi'u cyfrifo o gynlluniau'r Weinyddiaeth Awyr ac o ffotograffiaeth awyr lle nad oedd dim ar gael.

## GGAT 118 Mynediad at Ddata sy'n Deillio o Reoli Cynllunio Archaeolegol

Bwriad y prosiect hwn yw ychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol trwy gynnwys gwybodaeth fan adroddiadau llenyddiaeth 'lwyd', o ganlyniad i'r broses gynllunio, er mwyn gwella mynediad i'r adnodd a hwyluso rôl cynllunio archaeolegol ac ymchwil ehangach yn archaeoleg De-ddwyrain Cymru. Bydd ffynonellau papur hefyd yn cael eu digido i'r safonau cymeradwy er mwyn cynorthwyo â'u cadwraeth.

Trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr, bwriad yr Ymddiriedolaeth yw galluogi aelodau o'r gymuned leol, grwpiau cymunedol, grwpiau hanes a myfyrwyr prifysgolion lleol i ddysgu rhagor am y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ac archaeoleg gyffredinol De Cymru, a rhoi'r wybodaeth iddynt am sut y mae archaeoleg yn cael ei chynnwys yn y broses gynllunio, yn ogystal â darparu sgiliau TG a sgiliau cartograffeg y gellir eu trosglwyddo.

Mae staff y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a Chynllunio Archaeolegol yn hyfforddi'r gwirfoddolwyr ac yn rhoi iddynt y sgiliau a'r wybodaeth a fydd yn eu galluogi i ddiweddaru/golygu safleoedd presennol neu ychwanegu safleoedd newydd a digwyddiadau archaeolegol at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Byddant hefyd yn dysgu sut i chwilio am wybodaeth yn y Cofnod a sut i'w ddefnyddio fel cyfrwng ymchwilio. Bwriad y prosiect hwn yw codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau archaeolegol sydd ar gael, megis y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, a lledaenu hyn i'r gymuned ehangach. Yn ei dro, bydd ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr adnodd archaeolegol yng Nghymru, sy'n dal i fod *in situ* ac wedi'i gadw a'i gofnodi, yn cael ei hyrwyddo. Nodwyd y dasg hon yn Flaenoriaeth Uchel yn Archwiliad y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol 2010.

Hon oedd blwyddyn gyntaf prosiect hirdymor, sef gweld yr archif gyfan o lenyddiaeth 'lwyd' yn cael ei hychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a'i digido.

Defnyddiwyd llawer o ddulliau i hysbysebu'r prosiect mor eang â phosibl a recriwtio gwirfoddolwyr. Crëwyd taflen/poster prosiect dwyieithog, yn hysbysebu'r prosiect o dan y teitl 'Mynediad i Archaeoleg'. Roedd hwn yn amlinellu amcanion y prosiect yn gryno, ac yn rhoi dolenni ar gyfer rhagor o wybodaeth, manylion ymgeisio a manylion cyswllt. Anfonwyd y daflen ar e-bost at gysylltiadau cyfredol yng nghronfa ddata gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth, cymdeithasau hanes ac archaeolegol lleol yn Ne Cymru, cafodd ei chylchredeg trwy system e-bost fewnol myfyrwyr adran Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd a'i hanfon i sefydliadau eraill yn y sector i'w hanfon yn ehangach. Cafodd y daflen ei phostio hefyd i gysylltiadau a sefydliadau heb e-bost. Yn ogystal roedd copïau caled ar gael i bobl eu casglu mewn digwyddiadau allgymorth amrywiol lle bu'r Ymddiriedolaeth yn bresennol yn ystod Ebrill a Mai. Crëwyd gwefan ficro a blog dwyieithog i roi presenoldeb ar-lein i'r prosiect http://accesstoarchaeology.blogspot.co.uk. Yn ogystal â throsolwg o'r prosiect, roedd y wefan yn cynnwys Pecyn Ymgeisio ar gyfer Gwirfoddolwyr, rhagor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth a'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a manylion cyswllt. Roedd y cyfeiriad ar gyfer y wefan wedi'i gynnwys ar y daflen/poster. Hysbysebwyd y prosiect ar dudalennau newyddion gwefan yr Ymddiriedolaeth, a blogiau perthnasol eraill. Darparwyd dolenni i wefan ficro'r prosiect i alluogi pobl a chanddynt ddiddordeb i fynd yn syth at wefan y prosiect i ddarganfod rhagor. Cyfanswm y gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio oedd 10, a threuliodd pob un ohonynt hyd at bythefnos yn gweithio ar y prosiect.

Roedd hyfforddiant i wirfoddolwyr trwy gydol y prosiect yn cynnwys cymysgedd o hyfforddiant wedi'i strwythuro ar gyfer grwpiau a hyfforddiant un i un yn ogystal â chymorth anffurfiol ar sail unigol yn ôl yr angen. Y prif agweddau a oedd yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant oedd:

- Rôl a chylch gwaith y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.
- Cofnodi safleoedd, digwyddiadau ac arteffactau amgylcheddol
- Creu cofnodion archaeolegol newydd.
- Darllen ffynonellau cartograffeg.
- Defnyddio meddalwedd y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a rhaglenni cyfrifiadurol eraill.
- Defnyddio'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol fel offer ymchwil.
- Defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol
- Cyd-destun archaeoleg yn y broses gynllunio yng Nghymru.
- Arfer gorau ar gyfer digido a diogelu ffynonellau papur a digidol.

Roedd y rhaglen waith yn cynnwys asesu 361 o adroddiadau sy'n cael eu cadw yn archif adroddiadau'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol sy'n dyddio o 1978 i 1994 (gan gynnwys y flwyddyn honno). Roedd yr asesiad yn golygu penderfynu a oedd yr adroddiad yn cynnwys deunydd a fyddai'n cael ei gofnodi fel cofnod o Ddigwyddiad yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, a yw'r wybodaeth eisoes wedi'i chofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol fel Digwyddiad, a hefyd a yw'r wybodaeth a gofnodwyd yn yr adroddiadau wedi'i chofnodi fel cofnodion (safle) Craidd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.

Yna cofnodwyd yr holl wybodaeth berthnasol nad oedd wedi'i chofnodi eisoes yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, gwiriwyd y cofnodion blaenorol o ran eu cywirdeb a'u cyflawnrwydd ac aethpwyd ati i wneud y cysylltiadau angenrheidiol rhwng y cofnodion Craidd, Digwyddiadau, Arteffactau a Llyfryddiaeth.

Roedd canlyniadau asesu'r 361 o adroddiadau fel a ganlyn:

- Adroddiadau oedd yn gyfeiriadau llyfryddol at ddigwyddiad yn unig 13
- Adroddiadau dyblyg 16
- Adroddiadau lle'r oedd yr holl wybodaeth eisoes wedi'i hychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol 15
- Adroddiadau a oedd wedi cael eu disodli neu a gafodd eu diwygio gan fersiwn ddiweddarach 6
- Adroddiadau sydd y tu hwnt i ardal Cofnod Amgylchedd Hanesyddol GGAT 4
- Adroddiadau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gofnod Digwyddiad yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol 17
- Adroddiadau a oedd ar goll 12
- Adroddiadau lle'r oedd yn ofynnol ychwanegu gwybodaeth at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol 278

O'r 278 o adroddiadau lle'r oedd angen ychwanegu gwybodaeth at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, mae'r ffigyrau canlynol yn berthnasol:

- Nifer y cofnodion Digwyddiad newydd a grëwyd 262
- Nifer y cofnodion Craidd newydd a grëwyd 127
- Nifer y cofnodion Arteffact newydd 319
- Nifer y cofnodion Digwyddiad/Craidd presennol a olygwyd dros 8,000
- Nifer yr ardaloedd Digwyddiad a ychwanegwyd at MapInfo 278
- Nifer y dogfennau PDF a grëwyd 240

Ymgymerwyd â sicrwydd ansawdd cychwynnol wrth i bob cofnod gael ei gwblhau; yna ymgymerwyd â sicrwydd ansawdd mwy manwl ar ddiwedd pob mis.


Roedd fersiynau PDF o adroddiadau'n cael eu creu mewn achosion lle'r oedd gan yr Ymddiriedolaeth hawlfraint dros yr adroddiad yn unig, oherwydd rhaid cael caniatâd gan sefydliadau eraill cyn parhau. Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn gofyn am ganiatâd sefydliadau eraill i ddigido copïau papur o adroddiadau neu, lle maent ar gael, darparu copïau o'r adroddiadau hyn ar fformat digidol i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Byddwn hefyd yn gofyn am ganiatâd i'r adroddiadau hyn fod ar gael trwy Archwilio. Bydd caniatâd o'r fath yn cael ei

ddogfennu trwy ddefnyddio cytundeb Trwydded Adneuwr y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol â phob sefydliad.

Rhoddwyd mynediad i 240 o gofnodion digidol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent trwy wefan Archwilio yn ogystal â thrwy system Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yr Ymddiriedolaethau. Cafodd pob adroddiad ei gysylltu â safleoedd unigol y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol y mae'n cyfeirio atynt.

## GGAT 119 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar (c1100-1750) De-ddwyrain Cymru: Melinau Gwynt ym Morgannwg a Gwent

Yn dilyn prosiect cwmpasu a gynhaliwyd yn 2010 a oedd yn adolygu'r angen i asesu dosbarthiadau safleoedd amrywiol sy'n dyddio i gyfnodau Canoloesol ac Ôl-ganoloesol cynnar, ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â phrosiect i archwilio melinau gwynt Canoloesol ac Ôl-ganoloesol ym Morgannwg a Gwent. Roedd y prosiect yn cynnwys asesiad desg pellach o 29 melin wynt, gydag asesiad penodol o 22 safle y nodwyd eu bod yn bodloni'r meini prawf a osodwyd. Roedd hyn yn cynnwys gwerthuso 8 safle melin wynt nad oedd wedi'u cofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol o'r blaen, a nodwyd o'r Cofnod Henebion Cenedlaethol a chyhoeddiadau.





***Safleoedd Melinau Gwynt Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar sy'n dangos Arwyddocâd Cyffredinol.***

Nid yw nifer bresennol y safleoedd melinau gwynt ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn gynhwysfawr a dylid nodi nad cylch gwaith y prosiect presennol oedd chwilio am safleoedd newydd. Roedd yr asesiad yn cynnwys dau gam: yn y lle cyntaf nodi'r melinau gwynt sydd eisoes yn rhestredig neu wedi'u cofrestru er mwyn sicrhau trothwy a hefyd nodi bylchau daearyddol a theipolegol, ac yn ail ddefnyddio meini prawf sefydledig i asesu arwyddocâd cyffredinol yr adnodd

Dangosodd y gwaith fod pedwar o'r 22 wedi'u diogelu, a bod enghraifft reit dda o'r adnodd eisoes yn cael ei diogelu naill ai trwy restru neu gofrestru. Nodwyd un tueddiad a ddisgwyliwyd yn y

dosbarthiad daearyddol tuag at ardaloedd sy'n well yn amaethyddol megis Bro Morgannwg ac ardaloedd arfordirol Gorllewin Morgannwg a Sir Fynwy. Roedd ystyr yr enghreifftiau a ddiogelwyd yn eithaf cynrychiadol o ran gwasgariad daearyddol, er efallai yn llai felly o ran y mathau o felinau gwynt, heb yr un felin bostyn na thwmpathau melinau gwynt wedi'u diogelu hyd yn hyn.

O blith y 22 safle a aseswyd, ystyriwyd pump o Arwyddocâd Cenedlaethol, roedd pedwar arall ar y ffin o ran Arwyddocâd Cenedlaethol/Rhanbarthol, wrth i'r gweddill gael eu hystyried o Arwyddocâd Lleol, Bychan neu Anhysbys. Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer rhagor o archwiliadau, arolygon a chadwraeth archaeolegol. Mae'r argymhellion i'w hystyried ar gyfer diogelu yn sail i adroddiad ar wahân.





***Safleoedd Cloddio Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar o Arwyddocâd Cyffredinol***

## GGAT 120 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar (c AD1100-AD1750) De-ddwyrain Cymru: Cloddio Cynnar ym Morgannwg a Gwent

Yn dilyn prosiect cwmpasu a gynhaliwyd yn 2010 a oedd yn adolygu'r angen i asesu dosbarthiadau amrywiol o safleoedd sy'n dyddio i gyfnodau Canoloesol ac Ôl-ganoloesol cynnar, ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â phrosiect i archwilio cloddio Canoloesol ac Ôl-ganoloesol cynnar ym Morgannwg a Gwent. Roedd hyn yn cynnwys asesiad desg bellach o ryw 43 safle cloddio, gydag asesiad penodol o 24 y nodwyd eu bod yn bodloni'r meini prawf a osodwyd. Roedd hyn yn cynnwys asesu 6 safle cloddio nad oeddent wedi'u cofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol o gyhoeddiadau. Gwnaed asesiad cyflym hefyd o safleoedd cloddio cynnar yn y Cofnod Henebion Cenedlaethol. Nid yw nifer bresennol y safleoedd cloddio cynnar yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn gynhwysfawr a dylid nodi nad cylch gwaith y prosiect presennol oedd chwilio am safleoedd newydd. Mabwysiadodd yr asesiad dau gam: yn y lle cyntaf nodi safleoedd cloddio a oedd eisoes wedi'u diogelu (h.y. wedi'u cofrestru) er mwyn sicrhau trothwy a hefyd nodi bylchau daearyddol a theipolegol, ac yn ail gosod meini prawf sefydledig i asesu arwyddocâd cyffredinol yr adnodd.

Cadarnhaodd y gwaith fod dau o blith y 24 man o ddiddordeb wedi'u diogelu. O ran yr adnodd a aseswyd nodwyd tuedd disgwyliedig yn y gwasgariad daearyddol, roedd yr adnodd wedi hepgor y nifer sylweddol o safleoedd yn ardal Blaenau'r Cymoedd, lle'r oedd cloddio diweddarach wedi cuddio i raddau helaeth goroesiad nodweddion cloddio cynnar, ac eithrio dau, gan gynnwys y gwaith haearn nodedig yn Upper Race, Cwmbrân. O ran y mathau, roedd y safleoedd a gafodd eu hasesu yn bydewau ffurf cloch gan mwyaf, neu'n waith yn ymwneud â haearn. Roedd y gwaith haearnfaen yn cyfri am dros 83% o'r adnodd oedd ag o leiaf y potensial i fod o Arwyddocâd Cenedlaethol - gyda chwarel ganoloesol, a oedd yn darparu'r Garreg Sutton enwog, yn cyfrif am y gweddill.

O blith y 24 safle a aseswyd, ystyriwyd pedwar o arwyddocâd cenedlaethol, ac roedd dau ar y ffin o ran Arwyddocâd Cenedlaethol (h.y. tua 25% o'r adnodd a aseswyd), ac roedd pum safle arall â photensial i fod o Arwyddocâd Rhanbarthol, wrth i'r gweddill gael eu hystyried o Arwyddocâd Lleol, Bach neu Anhysbys. Rhoddwyd argymhellion ar gyfer gwaith pellach, yn bennaf gwaith arolwg a chadwraeth. Cyflwynwyd argymhellion i'w hystyried ar gyfer diogelu mewn adroddiad ar wahân.




***Safleoedd Gefeiliau Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar yn Dangos Arwyddocâd Cyffredinol***

## GGAT 121 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar (c AD1100-AD1750) De-ddwyrain Cymru: Cynhyrchu Haearn – Gefeiliau ym Morgannwg a Gwent

Yn dilyn prosiect cwmpasu a gynhaliwyd yn 2010 a oedd yn adolygu'r angen i asesu dosbarthiadau amrywiol o safleoedd sy'n dyddio i gyfnodau Canoloesol ac Ôl-ganoloesol cynnar, ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â phrosiect yn archwilio safleoedd gefeiliau cynnar ym

Morgannwg a Gwent. Defnyddiodd y prosiect ddull asesu dau gam a dilynwyd hyn gan asesiad manwl o'r detholiad terfynol o safleoedd. Roedd y prosiect yn cynnwys asesiad desg o 50 o safleoedd gefeiliau canoloesol/ôl-ganoloesol, yn cynnwys 3 safle gefail nad oeddent wedi'u cofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Nododd yr asesiad safleoedd a ystyriwyd yn rhai wedi'u dinistrio, wedi'u lleoli'n wael, yn dyddio o'r cyfnod wedi 1750, a safleoedd a nodwyd yn weithdai gofaint gwledig, gan wneud y dewis yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn. Yn hynny o beth dewiswyd 8 safle a'u hasesu'n fwy manwl wrth gymharu â meini prawf a osodwyd.

O blith yr 8 safle a aseswyd, ystyriwyd bod tri o Arwyddocâd Cenedlaethol, pob un yn Henebion Cofrestredig, ystyriwyd un safle ar y ffin o ran Arwyddocâd Cenedlaethol, ac roedd safle arall ar y ffin o ran Arwyddocâd Rhanbarthol. Rhoddwyd argymhellion ar gyfer rhagor o waith, arolygon a chadwraeth yn bennaf. Rhoddwyd argymhellion i'w hystyried ar gyfer diogelu mewn adroddiad ar wahân.

## GGAT 122 Nidum – Caer ac Amgylchion Rhufeinig

Lluniwyd prosiect Nidum i greu synthesis o'r gwaith archaeolegol a ymgymerwyd ag ef yn ardal y gaer Rufeinig yng Nghastell-nedd o 1992 hyd at 2010 i gyd-fynd â'r adroddiad sydd ar ddod am y cloddio ar raddfa fawr a ddigwyddodd rhwng 2010 a 2012 ar amddiffynfeydd gogledd-ddwyrain y caerau pren Ffalfaidd cynharach.

Yn dilyn cyhoeddiad Heywood a Marvell (1992) o'u gwaith ar y gaer, a oedd yn defnyddio'r wybodaeth gyfyngedig am y gweithgarwch y tu allan i'r gaer, crynodeb byr gan Marvell (2010) a throsolwg byr na chafodd ei gyhoeddi gan Pearson (2002), nid oes ymgais wedi bod i gyhoeddi synthesis o ganlyniadau'r amrywiol ymchwiliadau y tu mewn i'r gaer nac o'u hamgylch. Mae llawer o'r rhain yn waith ar raddfa fawr sy'n ymateb i ddatblygiad, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny yn y gogledd, y gogledd-ddwyrain a hefyd i'r de a'r de-orllewin o'r caerau. Mae'r ymchwiliadau hyn wedi cynhyrchu archif fawr o ddeunydd nad yw wedi'i gyhoeddi, yn bennaf ar ffurf adroddiadau llenyddiaeth 'lwyd', ac ynghyd â'r cloddiadau mwyaf diweddar rhwng 2010 a 2012, maent yn ffurfio corff sylweddol o ddeunydd. Nid oedd dim cloddiadau sylweddol wedi'u cynnal yn y gaer rhwng 1992 a 2010.

Roedd yr adolygiad yn seiliedig yn bennaf ar ffynonellau o Gofnod Amgylchedd Hanesyddol GGAT ond roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth o'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy. Roedd y set ddata ar gyfer cofnodion Rhufeinig yng Nghofnod Amgylchedd Hanesyddol GGAT a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys 78 o gofnodion, gyda manylion am gloddiadau archaeolegol, gwerthusiadau maes archaeolegol, briffiadau gwylio, arolygon ac asesiadau desg a naw man darganfod (Amgueddfa Cymru). Defnyddiwyd hidlydd ar y data er mwyn dileu'r gwaith a gyflawnwyd hyd at 1992 a hefyd ar yr adroddiadau a ystyriwyd yn amherthnasol i'r prosiect, gan arwain at gronfa ddata graidd o 58 o gofnodion

Roedd yr ymarfer adolygu data hwn yn dangos bod y corff o wybodaeth yn canolbwyntio efallai nad yw'n syndod, ar ardal gul o amgylch y gaer y gwyddys amdani. At ddibenion meintoli, cyflwynwyd data'r adolygiad mewn pedrannau yn seiliedig ar echelin y gaer.

GGAT 122: Nidum - Neath Roman Fort and Environs





**Figure 2.** Plan showing the later fort outline and all archaeological works (grey) from 1950 to 2012

***Castell-nedd: Cynllun yn dangos yr holl gloddiadau yn y Gaer a'i hamgylchion.***

75

Roedd yr adolygiad wedi darganfod bod crynodiad o elfennau strwythurol Rhufeinig a darganfyddiadau i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain o'r gaer Rufeinig a oedd yn awgrymu safle tebygol ar gyfer ficws. Roedd olion allanol y gaer ar gyfer yr holl ardal heblaw pedran y gogledd-ddwyrain wedi'u cysylltu'n agos â'r ffyrdd a oedd yn arwain i mewn ac allan o'r gaer ac fe'u lleolir yn gyffredinol o fewn ôl troed 30 metr o ymyl y ffordd. Gellir gweld yr anheddiad ym mhedran y gogledd-ddwyrain fel datblygiad llinellol ar hyd y ffordd i'r gogledd-ddwyrain ond pe bai'r

anheddiad hefyd wedi ymestyn heb rwystr tua'r gogledd-orllewin yna gallai rhywun ddisgwyl gweld llwybrau rhwng yr adeileddau oherwydd byddai'r ffordd cryn dipyn ymhellach i ffwrdd.

Mae natur a swyddogaeth yr anheddiad yn anodd ei dehongli. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw waliau cerrig na symiau sylweddol o deils to a nodwyd yr adeileddau yn ôl y gosodiadau pyst, rhychau'r sylfeini ac olion lloriau clai a slabiau. Gallai'r prinder adeileddau o wneuthuriad da awgrymu anheddiad lle na fu pobl yn byw yno am gyfnod hir neu fod y *ficws* yn fwy tebyg i dref sianti nad oedd wedi datblygu na ffynnu erioed er mwyn darparu gwell amodau byw. Nid oedd tystiolaeth ddigonol i awgrymu gweithgarwch diwydiannol yn y f*icws*. Roedd aelwydydd yn bresennol ond gallai'r rhain fod at ddibenion domestig a/neu ddiwydiannol a chan na ddaethpwyd o hyd i dawddlestri na thystiolaeth uniongyrchol arall o arferion diwydiannol, mae'r aelwydydd yn parhau'n an-ddiagnostig. Yn yr un modd gallai gwrthrychau plwm a gweddillion slag awgrymu lefel o weithgarwch diwydiannol ond nid yw union leoliad y gweithgareddau hyn wedi'i bennu.

Nid oedd y pedrannau a oedd yn weddill wedi datgelu symiau tebyg o ganfyddiadau nac ychwaith olion adeileddau helaeth na malurion o'r gogledd-ddwyrain ond gwelwyd elfen glir o weithgarwch ar ochr de-ddwyrain y gaer nad yw wedi'i diffinio'n glir ac mae'r wybodaeth am bedran y gogledd-orllewin yr un mor ansicr heblaw am yr adeiledd y daethpwyd o hyd iddo ym 1993 o fewn clostir sy'n awgrymu seiliau ar gyfer llawr mosäig neu *opus signinum.* Mae'n debyg mai prin iawn yw'r cwmpas o fewn pedran y de-ddwyrain i wella ein gwybodaeth am yr ardal honno oherwydd yr amgylchedd adeiledig sy'n cynnwys yr ystâd dai a'r prif isadeiledd cludiant ôl-ganoloesol.

Ymgymerwyd hefyd ag ailasesiad o ddarganfyddiadau'r safleoedd a chynhyrchwyd adroddiadau arbenigol ar gyfer y categorïau arteffactau canlynol, crochenwaith, gwydr, plwm, copr, aur, gwaith cerrig a haearn. Bydd yr adroddiadau hyn ynghyd â'r data strwythurol a gafodd eu syntheseiddio yn cael eu hychwanegu at y cyhoeddiad monograff sydd ar ddod sy'n deillio o'r cloddiadau graddfa fawr ar y gaer yr ymgymerwyd â hwy rhwng 2010 a 2012.

*Cyfeirnodau*

Heywood B and Marvell AG 1992 'Excavations at Neath 1984-5 and 1988' *Bulletin of the Board of Celtic Studies* **39** 171-292

Marvell AG 2010 'Neath' in Burnham BC & Davies JL (eds) 2010 *Roman Frontiers in Wales and the Marches* (RCAHMW) 265-267.

Pearson A 2002 'Roman Roads and Vici in Southeast Wales' *GGAT Report No* **2002/061**.

## GGAT 123 Arolwg Mynachaidd Cymunedol Margam

Abaty Margam, a sefydlwyd ym 1147 gan Robert Earl o Gaerloyw ac Arglwydd Morgannwg, oedd y sefydliad Sistersiaid mwyaf cyfoethog yng Nghymru ym 1129. Erbyn y dyddiad hwnnw, roedd bron yr holl olion sydd wedi goroesi wedi'u hadeiladu, â'u hansawdd yn destament i gyfoeth yr abaty ac uchelgais yr abadau dilynol. Mae'r adeileddau sydd wedi goroesi yn cynnwys chwe bae gorllewinol corff ac ystlysau eglwys yr abaty, sydd wedi cael eu defnyddio ers y Diwygiad fel eglwys y plwyf, adfeilion y groes, tŷ'r offeiriad a thranseptau'r eglwys, ynghyd ag olion y cabidyldy, is-grofft dortur y mynachod a rhan fach o'r cloestr. Mewn cyferbyniad â phensaernïaeth Normanaidd corff yr eglwys, mae'r adfeilion bron yn gyfan gwbl o arddull Gothig Gynnar. Mae ychydig iawn o bensaernïaeth addurnedig wedi goroesi yng ngweddillion y drws gorymdeithiol i mewn i'r eglwys trwy wal ogleddol y cloestr.

Pan gafodd yr abaty ei darostwng ym 1536, prynodd Syr Rice Mansel o Oxwich y safle, a adeiladodd blasty dros rannau deheuol a de-ddwyreiniol yr adeiladau cwfeiniol. Cafodd hwn ei ddymchwel yn y 18$^{fed}$ ganrif pan drefnwyd y parc yn gyfres o feysydd pleser gan Thomas Mansel Talbot, lle defnyddiwyd yr adfeilion canoloesol a oedd wedi goroesi fel nodweddion pensaernïol. Roedd y

cabidyldy yn gyflawn i raddau helaeth hyd 1799 pan gwympodd y fowt. Symudodd y teulu Talbot yn ôl i fyw'n barhaol ym Margam yn y 1830au, pan adeiladwyd Castell Margam. Prynodd Cyngor Sir Morgannwg Barc Margam ym 1973 ac mae wedi parhau ym meddiant yr awdurdodau lleol dilynol fel parc gwledig. Mae'r holl adfeilion yn rhan o'r parc gwledig ac yn eiddo i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, defnyddir corff ac ystlysau'r eglwys fel yr eglwys blwyf, a adnabyddir yn gyffredinol fel Abaty Margam. Mae'n perthyn i Gorff Cynrychioladol yr Eglwys yng Nghymru ac mae o dan ofal y rheithor a chyngor yr eglwys blwyfol.





***Parc Margam: Gwirfoddolwyr yn cofnodi'r olion***

Mae waliau Abaty Margam mewn cyflwr o adfeilio difrifol ac yn cael eu gwanhau gan dresbasiad llystyfiant cymysg, gan gynnwys coed ifanc ac iorwg, sy'n bwrw gwreiddiau i mewn yn y gwaith cerrig ac ar ei draws. Mae hyn wedi effeithio ar y morter ac mae'n malurio ac yn llacio'r gwaith cerrig i'r fath raddau nes ei fod mewn perygl o syrthio yn y dyfodol agos, gan ddinistrio'r heneb ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r gwaith cerrig rhydd eisoes yn achosi perygl i iechyd ymwelwyr: mae'r waliau mor fregus mae pobl mewn perygl o symud y gwaith cerrig trwy ei gyffwrdd yn unig. Byddai caniatáu i'r safle ddirywio ymhellach yn peri i'r safle fod yn beryglus iawn a byddai hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar fynediad i unrhyw ymwelwyr sy'n dymuno gweld yr heneb. Mae'r eglwys blwyf mewn cyflwr eithaf da.

Yn 2011, yn ystod trafodaethau am y posibilrwydd o ymgymryd â phrosiect cymunedol yn y parc, mynegodd Ffrindiau Parc Margam eu pryderon am gyflwr yr adfeilion i aelodau staff yr Ymddiriedolaeth. Yn sgil y drafodaeth daeth cynnig i gofnodi cyflwr yr adfeilion trwy ddefnyddio gwirfoddolwr o blith y Ffrindiau a phobl leol eraill a chanddynt ddiddordeb, o dan oruchwyliaeth staff yr Ymddiriedolaeth. Nod y prosiect oedd darparu data gwaelodlin ar gyflwr yr heneb er mwyn cyfarwyddo trafodaethau rhwng Cadw a'r awdurdod lleol ynglŷn â rhaglen gadwraeth, ac ar yr un pryd rhoi cyfle i'r cyhoedd gael profiad ymarferol o ran technegau archaeolegol.

Y cynnig gwreiddiol oedd defnyddio arolwg EDM i gipio'r data er mwyn cynhyrchu amlinelliad o bob wal unigol gan nodi arno'r cerrig oedd wedi'u difrodi. Yna byddai ffotograffau o'r rhain yn cael eu tynnu a byddai'r ffotograffau'n cael eu gosod yn electronig ar yr amlinelliad ag anodiadau. Yna byddai'r golygon hyn ar gael i gyfarwyddo unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol am gadwraeth. Cyflawnwyd yr arolwg EDM yn ôl y disgwyl, fodd bynnag, gwnaethpwyd addasiadau i'r dulliau cofnodi ffotograffig ac ysgrifenedig yn ystod cyfnod y prosiect. Penderfynwyd tynnu ffotograff o wynebau'r waliau, a chofnodi

wyneb pob wal ar wahân, gan ddefnyddio profforma oedd yn cynnwys lle ar gyfer disgrifiad archaeolegol, disgrifiad o'r cyflwr a braslun i dynnu sylw at ardaloedd o ddifrod. Er i hyn arwain at gofnodi cynhwysfawr o bob agwedd ar gyflwr yr adfail yn seiliedig ar arsylwi gofalus ac astud, yn ymarferol achoswyd problemau gan nad oedd gan y gwirfoddolwyr brofiad blaenorol o ddisgrifio archaeoleg, ac nid oedd gan y mwyafrif ohonynt brofiad blaenorol o greu cofnod ysgrifenedig trefnedig.

Roedd rhaid cyfyngu ar nifer y gwirfoddolwyr ar y safle ar unrhyw adeg i wyth er mwyn sicrhau hyfforddiant a goruchwyliaeth ddigonol. Roedd cyfanswm o ugain o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan, gyda chwech yn bresennol ar gyfer y rhan helaeth o'r prosiect. Roedd mwyafrif y gwirfoddolwyr o oed ymddeol, ond roedd rhai hefyd yn eu hugeiniau. Roedd yr adborth gan y cyfranogwyr yn gadarnhaol, yr unig sylw oedd y byddai rhai wedi dymuno gallu mynd ar ragor o sesiynau.

Mae adroddiad terfynol y prosiect yn cyflawni ein nod o gynhyrchu dull rheoli i gyfarwyddo penderfyniadau'r dyfodol am gadwraeth. Gwnaethom hefyd gyflwyno aelodau o'r cyhoedd i'r broses o dechnegau arolygu archaeolegol yn llwyddiannus, a'u hyfforddi mewn technegau ffotograffiaeth archaeolegol. Lluniwyd cyfres o dri phanel arddangos ar y prosiect yn cynnwys uchafbwyntiau'r prosiect.

## GGAT 124 Eisteddfod Llandŵ 2012

Penderfynodd yr Eisteddfod Genedlaethol y byddai gŵyl 2012 yn cael ei chynnal ar faes awyr yr Ail Ryfel Byd RAF Llandŵ. Cyn adeiladu'r maes awyr, cloddiodd Syr Cyril Fox dri grŵp o grugiau o'r Oes Efydd sydd i'w gweld fel gwrthgloddiau, sef grŵp Sheepleys, y grŵp Six Wells a'r grŵp Sutton. Y crugiau hyn oedd rhannau gweladwy tirwedd ddefodol o'r Oes Efydd yn ardal Llandŵ; dengys gwaith a gwblhawyd yn fwy diweddar ar dirweddau defodol o'r fath fod henebion unionsyth yn debygol o fod yn rhan o safle llawer mwy, a bod rhannau pwysig eraill wedi goroesi o dan y ddaear fel nodweddion a dorrwyd yn y ddaear, e.e. Lôn Dyffryn, Aberriw (Gibson 1995) neu dystiolaeth o ddefnydd cynharach o'r safle, fel ym Mhant Sychbant (CBHC 1997, 88RC74).

O ganlyniad i waith Fox dyma'r casgliad o grugiau sydd wedi'i astudio orau ym Morgannwg. Fodd bynnag, gan nad oedd ganddo lawer o amser, ac oherwydd y tywydd anodd, a gwybodaeth lai datblygedig yn 1930au a'r 40au, roedd ei gloddiadau'n canolbwyntio ar yr henebion unionsyth ac nid yw'n ymddangos ei fod wedi archwilio llawer o'r ardal o gwmpas. O ganlyniad, nid oedd unrhyw wybodaeth yn nodi a oedd elfennau eraill yn y dirwedd ddefodol hon, o'r un cyfnod â'r crugiau neu'n perthyn i gyfnod gwahanol yn ei datblygiad.

Safleoedd eraill y gwyddys amdanynt yn ardal y Maes oedd fferm Six Wells â'i thai allan, a dymchwelwyd er mwyn adeiladu'r maes awyr, ond y byddai ei sylfeini wedi goroesi o dan y ddaear mae'n debyg, a rhan isaf 'pillbox' o fath Pickett-Hamilton.

Ym mis Chwefror 2012, nododd yr Ymddiriedolaeth gan mai adeiladau dros dro oedd gan yr Eisteddfod Genedlaethol, nid oedd angen caniatâd cynllunio, ac o ganlyniad ni chafwyd cyfle i roi strategaeth liniaru archaeolegol ar waith. Wrth ystyried sensitifrwydd archaeolegol yr ardal, ystyriwyd mai'r cam priodol fyddai arolwg geoffisegol, briff gwylio ar y tyllau a gloddiwyd i osod tri thanc dŵr ar gyfer y toiledau, a chofnodi unrhyw ddarganfyddiadau o'r Ail Ryfel Byd yr ymyrrwyd â hwy yn ystod y broses adeiladu.

Caniatawyd mynediad i'r safle ar ôl i'r Eisteddfod Genedlaethol gymryd rheolaeth dros waith adeiladu, er mwyn cyflawni'r arolwg geoffisegol a'r briff gwylio. Gan nad oedd llawer iawn o amser i wneud archwiliad, yr unig ardal yr oedd modd gwneud arolwg ohoni oedd y rhan o'r Maes yr oedd y gwaith adeiladu'n fwyaf tebygol o aflonyddu arni (safle arfaethedig y pafiliwn a'r ardal yn union o'i amgylch). Gan fod y safle ar Galchfaen Lias, penderfynwyd mai magnetometreg oedd yn debygol o roi'r canlyniadau gorau, er yr oedd rhywfaint o bryder y gallai metel sgrap a adawyd ar ôl o'r adeg pan oedd y safle'n cael ei ddefnyddio fel iard falu ar gyfer tanciau ac awyrennau ar ôl y rhyfel amharu'n ormodol.

Datgelodd yr arolwg geoffisegol ddau derfyn cae o'r cyfnod cyn y maes awyr a safle'r 'pillbox'. Ni chafwyd delwedd o unrhyw nodweddion cynhanesyddol posibl. Yn ystod briff gwylio'r tyllau ar gyfer y tanciau dŵr, darganfuwyd bod y creigwely mor agos at yr wyneb mewn rhai mannau fel bod yn rhaid ail-leoli un ohonynt. Ni ddarganfuwyd dim byd o ddiddordeb archaeolegol yn yr un ohonynt. Yr arteffact mwyaf nodedig o gyfnod yr Ail Ryfel Byd a ddarganfuwyd oedd darn o arf rhyfel a ddarganfuwyd gan un o'r gweithwyr adeiladu. Hysbyswyd yr heddlu ynglŷn â hyn er mwyn cael gwared arno'n briodol yn hytrach na'i gofnodi.

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ei hun, bu cynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth a Cadw mewn trafodaethau gyda chynrychiolwyr o bwyllgor rheoli'r Eisteddfod Genedlaethol. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn gobeithir y bydd archaeoleg yn ystyriaeth berthnasol yn y dyfodol, hyd yn oed pan nad yw'r gwaith adeiladu'n mynd trwy'r broses gynllunio.

***Cyfeiriadau***

Fox C 1959 *Life and death in the Bronze Age* London

Gibson A 1995 'The Carreg Beuno prehistoric landscape' *Montgomeryshire Collections* **83** 41-58.

RCAHMW 1997 *An inventory of the ancient monuments in Brecknock. Vol 1: The prehistoric and Roman monuments, Part i Later prehistoric monuments and unenclosed settlements to 1000AD* Cardiff (HMSO).

## GGAT 125 a GGAT 127 Polygonau Glastir ar gyfer Data Coetiroedd Preifat

Roedd y rhaglen waith yn cynnwys asesu 35,028 hectar o goetir wedi'i rannu'n 10,103 llain o dir yn ardal Morgannwg Gwent. Aseswyd pob ardal yn erbyn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, y 4 rhifyn cynnar o fapiau'r Arolwg Ordnans, ffotograffiaeth geo-gyfeirio fertigol o'r awyr a data LIDAR 2m gan lunio polygonau lle bo'n addas. Arweiniodd y prosiect at nodi cyfanswm o 4,511 o Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol sydd bellach yn cael eu diogelu'n well.

Y detholiad o nodweddion amgylchedd hanesyddol i'w nodi oedd y rheini lle gellid tybi'n rhesymol bod modd eu rheoli o dan gynllun Glastir - h.y. nodweddion sy'n bodoli mewn ffynonellau dogfen yn unig, nodweddion na fyddai'n gadael cyd-destun diriaethol (megis darganfyddiadau achlysurol). Nodweddion nad oedd yn cael eu nodi oedd rhai na ellir eu lleoli gerllaw neu nodweddion sydd wedi'u gwaredu'n llwyr (er enghraifft fel y dangosir gan ffotograffau modern o'r awyr). Lluniwyd pob polygon i ddangos maint tybiedig nodwedd amgylchedd hanesyddol neu gyfuniad o nodweddion. O'r rhain, crëwyd Ardaloedd Rheoli Glastir gan ddilyn y meini prawf a amlinellwyd ym Methodoleg Polygonau Glastir nad yw'r cynnwys dim polygonau'n gorgyffwrdd na pholygonau lluosog a gofnodir yn wrthrychau sengl yn nhabl Rheoli Ardal Glastir. Cofnodwyd set o feta data ar gyfer pob polygon a nodwyd. Yn ogystal â llunio'r polygonau, crëwyd cofnodion sylfaenol ar gyfer y nodweddion hynny nad oedd eisoes yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.

Ymgymerwyd â'r gwaith mewn dau gam a pob un â rhif prosiect ar wahân. Nodir y canlyniadau cyfunol a'r Ardaloedd Rheoli Glastir isod:

Nifer y lleiniau o goetir a aseswyd 10,103

Nifer y safleoedd y lluniwyd polygon ar eu cyfer 2,514

Nifer y safleoedd y lluniwyd pwynt ar eu cyfer 1,997

Canran y safleoedd Cofnod Amgylchedd Hanesyddol newydd Dros 85%

Cyfanswm y Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol a nodwyd

4,511

Cyfanswm terfynol yr Ardaloedd Rheoli Glastir a gynhyrchwyd 2,086

Nifer yr Ardaloedd Rheoli Glastir a olygwyd 90.

## GGAT 126 Safleoedd Damweiniau Awyrennau Milwrol yn Ne-ddwyrain Cymru

Lluniwyd Prosiect Safleoedd Damweiniau Awyrennau Milwrol De-ddwyrain Cymru i geisio casglu gwybodaeth gywir yn ymwneud â lleoliad, canrannau a goroesiad safleoedd damweiniau milwrol yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae safleoedd damweiniau awyrennau yn ein hatgoffa o newidiadau mawr yr 20fed ganrif mewn ffordd ddiriaethol ond enigmatig. Maent yn ymgorffori oferedd rhyfela modern a'r potensial am ddistryw enbyd ac ar yr un pryd yn dangos y camau mawr technolegol ymlaen o ran hedfan yn ystod y ganrif gan ddatgelu hanes buddugoliaeth a thrychineb, gan roi cofeb i'r criwiau awyr a'r storïau sydd ynghlwm wrth hediadau olaf pob awyren.

Daeth y prosiect yn sgil trafodaeth yn ystod Gweithgor Cymru ar Safleoedd Milwrol yr Ugeinfed Ganrif yn 2009. Mynegwyd pryderon gan aelodau'r grŵp am yr adnodd hwn a oedd yn lleihau a'r angen i gasglu gwybodaeth gydlynol a chywir a ellir ei defnyddio i fynd i'r afael ag anghenion gwybodaeth amrywiaeth o bobl a chanddynt ddiddordeb gan gynnwys Rheolwyr Cynllunio Treftadaeth ac Archaeoleg wrth roi cyngor ar ddynodi, rheoli a hefyd i ddarparu gwell gallu ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn i gynorthwyo wrth benderfynu ar ymatebion i geisiadau i adfer awyrennau. Trafodwyd, wrth gasglu set data o'r fath y ffaith y byddai cyfle i fonitro a diogelu'r safleoedd a nodwyd, a allai fod mewn perygl oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys gwaith adfer heb drwydded.

Nod y prosiect yw ceisio hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r olion hyn a'u pwysigrwydd a bydd yn cynorthwyo i ddatblygu gwerthfawrogiad ehangach o'u pwysigrwydd yn ganolbwyntiau ar dirwedd De Cymru. Y bwriad yw gallu defnyddio'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth a diogelwch fel symbyliad ar gyfer gweithgarwch arall, nid cloddio'n unig, ac i addysgu grwpiau a phobl sy'n frwdfrydig am adfer y dylai safleoedd damweiniau gael eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw safleoedd archaeolegol eraill, oherwydd os yw'r awyren yn cael ei hystyried yn archaeoleg mae galw moesegol i ddilyn yr arfer gorau trwy adfer yr awyren yn y modd cywir a'i harchifo gan ddilyn safonau proffesiynol cyfredol fel yr awgrymir gan Huckfield (2005) a Brockman (2011).

Prif ffocws y prosiect oedd cronfa ddata o awyrennau a gafodd eu saethu i lawr a ddarparwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a gafodd ei hymestyn gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol

Gwynedd. Roedd hon yn dangos o blith y 130 o awyrennau a gofnodwyd yn ein hardal (cyfanswm o 41 o wahanol fathau o awyrennau, o blith tua 72 o olion neu fersiynau) roedd y ganran fwyaf wedi syrthio i Fôr Hafren, efallai oherwydd bod bron ein holl brif feysydd awyr ar hyd yr arfordir.

Wrth ymchwilio'r data am yr eildro datgelwyd; datgelu llawer o awyrennau prin, megis y Westland Whirlwind, a oedd yn brototeip o awyren fomio lefel isel, dwy yn unig o'r rhain a gafodd eu cynhyrchu erioed. Daethpwyd o hyd hefyd i Vickers Warwick MKW, lle nad oes enghreifftiau ohoni wedi goroesi a Lockheed Hudson, a gafodd ddamwain 3 milltir i'r de o Gilfach Goch ar 20 Awst 1941, a dim ond un o'r awyrennau hyn sy'n parhau i hedfan yn y byd.

Yr hyn a oedd hefyd yn ddiddorol i'w nodi o'r data oedd y nifer fawr o awyrennau dwbl a oedd yn parhau i gael eu defnyddio gan yr RAF yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd y rhain yn amrywio o'r Hawker Hind i'r De-Havilland Queen Bee, a chwympodd un o'r rhain i'r ddaear gerllaw byngalo Madeira, Parkmill, y Gŵyr.

*Cyfeirnodau*

Brockman A 2011 *Proposals For The Conduct Of Future Archaeological Investigations Of Aircraft Crash Sites Based On The Excavation Of The Crash Site Of Spitfire X4273 In Woolwich South East London*. (Unpublished report)

Huckfield PW 2005 *Recovery of Spitfire P7504. Maerdy Newydd, Bonvilston, Vale of Glamorgan.* GGAT (Unpublished report).

## GGAT 128 Mynwent Cwm Nash, Yr As Fawr: arolwg geoffisegol a thopograffig

Mae Cwm Nash ar arfordir De Cymru, 7 cilomedr i'r de o Ben-y-bont, ym mhlwyf Yr As Fawr, Bro Morgannwg (NGR SS 9044 7020; Ffigwr 1). Mae daeareg y craigwely yn cynnwys calch rhynghaenol a sialau o Ffurf Porthkerry (Lias Is), wedi'u gorchuddio gan waddodion sgri. Torrir ar draws hyn gan ddyffrynnoedd serth sy'n cynnwys gwaddodion twffa sylweddol sydd wedi ymddangos dros y 12,000 mlynedd diwethaf. Mae nant fechan (Nant Nash) yn rhedeg i'r gorllewin o'r As Fawr, cyn disgyn i ddyffryn dwfn Cwm Nash. Ar yr ochr orllewinol mae'r dyffryn wedi'i lenwi gan gyfres o waddodion twffa i ddyfnder o 5m (Evans et al. 1978, 68). Mae'r gyfres o waddodion twffa hyn yng Nghwm Nash yn bwysig oherwydd eu bod hefyd yn cynnwys olion ffosiledig malwod tir sy'n darparu cofnod manwl o hanes amgylcheddol a hinsoddol y safle (Evans et al 1978).



***Cwm Nash, Delwedd Ffotometrig Yr As Fawr.***
***Gellir gweld toriadau'r beddau yn y canol ar y brig***


Mae nifer o adroddiadau am ddeunydd ysgerbydol dynol yn erydu allan o'r clogwyni yng Nghwm Nash eisoes wedi arwain at ddau gloddiad ar gais (Locock 1993; Dunning a Bowen 2011). Gan fod rhagor o olion dynol wedi'u nodi, cytunwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth ymgymryd ag arolwg geoffisegol o'r ardal a hefyd cyflawni arolwg gwaelodlin o ochr y clogwyn. Roedd yr arolwg geoffisegol yn cynnwys technegau gwrthedd a magnometreg ac aethpwyd ati i wneud hyn er mwyn mapio maint ardal y fynwent wrth i'r arolwg gwaelodlin fapio llinell bresennol y clogwyn er mwyn gallu cymharu ag arolygon yn y dyfodol ac olrhain cyfradd erydiad y clogwyn. Bydd y ddwy set ddata hyn yn cynorthwyo cynllun rheoli ar gyfer y safle.

Lluniwyd y prosiect i fod yn hygyrch i'r cyhoedd gan roi'r cyfle i ddysgu technegau arolygon geoffisegol a GPS. Hysbysebodd yr Ymddiriedolaeth y prosiect i'w grŵp gwirfoddol sefydlog a oedd yn cynnwys aelodau o Grŵp Treftadaeth Arfordirol Arfordir ac i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae canlyniadau'r arolwg topograffig yn dangos, wrth gyfuno ag atchweliad map mai prin iawn yw enciliad y clogwyn yn yr ardal dros y 130 mlynedd diwethaf lle mae tystiolaeth o gladdedigaethau. Mae safon yr arolygon hanesyddol dilynol a chywirdeb eu cofrestru yn golygu nad yw'n bosibl cael amcangyfrifon manwl o'r enciliad. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y rhan helaeth o'r enciliad ar frig y clogwyn wedi digwydd ers cyhoeddi'r arolwg tua 1920. Fodd bynnag, mae graddfa'r enciliad ar waelod y clogwyn cryn dipyn yn fwy. Yn wir, mae'r arolygon hanesyddol yn awgrymu bod clogwyn is-fertigol yn weddol fodern, â llethr cryn dipyn yn llai serth yn y gorffennol, a fyddai'n cynnwys y prif lwybr i lawr ar hyd y teras. Mae troed y llethr a fapiwyd yn ymddangos fel pe bai wedi encilio tua 8 metr yn ardal y claddedigaethau – sy'n golygu bod y dopograffeg cryn dipyn yn fwy serth na'r hyn a fu'n hanesyddol. Yn debyg i enciliad brig y clogwyn, mae'r dystiolaeth gartograffeg yn awgrymu bod yr enciliad hwn wedi digwydd ers 1920 (gyda'r un amodau â'r amcangyfrif o symudiad brig y clogwyn fel y trafodwyd uchod), gyda'r llwybr sy'n mynd i lawr i'r traeth yn cael ei nodi ar fapiau OS mor ddiweddar â'r 1970au. Yn gyffredinol, mae'r arolwg a'r astudiaeth atchweliad map yn nodi bod erydiad y clogwyn cryn dipyn yn llai na'r hyn a awgrymir gan adroddiadau anecdotaidd lleol. Mae'r debyg mae'r golled fwyaf a nodir yw 3.5 i 4 metr ers 1920, ac mae rhan helaeth o'r golled honno mewn ardal fechan ger y claddedigaethau ac o bosibl yn yr ardal ychydig i'r gogledd o'r nant.

Nid oedd yr arolwg geoffisegol yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am bresenoldeb toriadau beddau yn ardal yr arolwg. Ni ellir hyd yn oed gweld delweddau o doriadau’r beddau yr ydym yn gwybod amdanynt ar wyneb y clogwyn. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd natur bas iawn y toriadau. Nid yw’r toriadau bas hyn yn treiddio’n ddigon dwfn nac yn ddigon llydan i’r twffa gwaelodol i amrywio cyflwr y ddaear mewn modd a fyddai’n cael ei ganfod gan y technegau geoffisegol. Y nodwedd fwyaf amlwg a ddelweddwyd gan yr arolwg geoffisegol yw clostir bach, wedi’i amgylchynu â chlawdd sy’n cynnwys creigiau mawr, sy’n ffinio’r llwybr ac yn cau am yr ardal yn union uwchben ei ddisgyniad i’r traeth. Nid yw hwn yn gorwedd ar doriad y llethr yn y lle amlwg ar gyfer ffin i’r llwybr, felly mae ei natur a’i oed yn parhau’n aneglur. Mae’r holl gladdedigaethau yr ydym yn gwybod amdanynt yn gorwedd y tu hwnt i’r clostir hwn tua’r gogledd. Gellir pennu bod ardal y claddedigaethau yn agos i ochr y teras, lle'r oedd yn llechweddu tua’r traeth, ychydig y tu allan i glostir bach nad ydym yn gwybod ei darddiad. Nid yw’n ymddengys y bu ardal y claddedigaethau’n gaeedig.

Byddai’r safle yn elwa ar ymchwil ychwanegol er mwyn nodi ymhellach y nodweddion a ddatgelwyd gan yr arolwg geoffisegol. Gan nad ydym yn gwybod dyddiad na swyddogaeth y ffin gerrig a ddelweddwyd gan yr arolwg geoffisegol byddai’n addysgiadol iawn cloddio ffos werthuso ar draws y nodwedd hon er mwyn canfod tystiolaeth i bennu dyddiad a swyddogaeth. Byddai darganfod sut y mae’r nodwedd hon yn berthnasol i’r fynwent yn bwysig er mwyn deall y safle hwn yn well. Os yw’r nodwedd o gyfnod cynharach na’r claddedigaethau yna gellid o bosibl weld sail resymegol dros ddewis yr ardal ar gyfer mynwent. Mewn cyferbyniad gallai’r clostir berthyn i weithgarwch yr Ail Ryfel Byd ar y safle gan roi cyfle am ragor o ffosydd gwerthuso wedi’u targedu dros nodweddion eraill yr Ail Ryfel Byd er mwyn darganfod union natur yr amddiffynfeydd er mwyn eu hychwanegu at y cofnodion lleol a chenedlaethol o safleoedd yr Ail Ryfel Byd




***Cwm Nash, Yr As Fawr: Dehongliad o ganlyniadau’r arolwg geoffisegol***

*Cyfeiriadau*


Dunning R and Bowen F 2012 *GGAT 115: Cwm Nash, Monknash, Vale of Glamorgan*.

Evans JG, French C and Leighton D 1978 “Habitat change in two Late-glacial and Post-glacial sites in southern Britain: the molluscan evidence” in Limbrey S and Evans JG (eds.) The Effect of Man on the Landscape: the Lowland Zone, *Council for British Archaeology Research Report* **21** 63-74.

Locock M 1993 *Excavations at Cwm Nash, Monknash, South Glamorgan* **Adroddiad GGAT Rhif. 93/068**

## AROLWG O BROSIECTAU CADW EBRILL 2013 – MEDI 2013

## GGAT 103 Prosiect Arfordir Morgannwg-Gwent

Yn ystod pedwaredd flwyddyn y gwaith, canolbwyntiodd y prosiect ar gryfhau'r grwpiau presennol; maent wedi parhau i gael cefnogaeth, gydag ymweliadau safle a chyfarfodydd i drafod safleoedd posibl ar gyfer gwaith dilynol a blaenoriaethau monitro ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal â theithiau cerdded wedi'u tywys ymgymerwyd â diwrnod hyfforddiant henebion gyda grwpiau Bro Morgannwg mewn ymateb i adborth gan wirfoddolwyr o'r drydedd flwyddyn. Bu'r diwrnod yn llwyddiannus ag ystod o safleoedd gwrthgloddiau wedi'u hasesu, â'r gwirfoddolwyr yn ennill hyder yn eu sgiliau gwaith maes. Mae'r grwpiau'n parhau i fod yn weithgar, yn ymgymryd â gwaith maes ac ymweliadau monitro yn rheolaidd ac yn parhau i ddychwelyd ffurflenni cofnodi wedi'u llenwi. Mae'r rhain yn cael eu gosod ar gronfa ddata'r prosiect wrth iddynt ddod i law a lle bo'n bosibl, mae polygonau o'r safleoedd yn cael eu nodi ar MapInfo.

Cynhaliwyd rhagor o deithiau cerdded wedi'u tywys er mwyn targedu safleoedd penodol, rhai ohonynt nad ydynt wedi'u cofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol gyda'r nod y bydd hyn yn rhoi cymhelliad i'r grwpiau ddychwelyd i'r safleoedd i gynnal gwaith arolwg annibynnol.

Mae'r prosiect wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau ym Mro Morgannwg ac ysgrifennwyd erthygl ar gyfer cylchlythyr misol Wick a oedd yn hyrwyddo'r gwaith y mae'r prosiect wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn ardal Bro Morgannwg.



***Y grŵp gwirfoddoli yn cyflawni asesiad cychwynnol o safle Ysgubor Sheeplays, Tresilian, Bro Morgannwg nad oedd wedi'i gofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol eisoes.***

Yn ogystal â'r gwaith maes yr ymgymerwyd ag ef daeth un gwirfoddolwr o ardal astudio blwyddyn 3 i'r Ymddiriedolaeth ar leoliad gwaith am fis lle cafodd hi hyfforddiant gan Gydlynydd Arfordir ar sut i gofnodi safleoedd Arfordir yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, roedd hyn hefyd yn cynnwys gwaith ar archifo a llwytho i fyny ffotograffau.

Cynlluniwyd diweddariadau i'r wefan sy'n cynnwys diweddaru'r dyluniad, yr oriel a'r adnoddau y gellir eu lawrlwytho ac mae'r mwyafrif wedi'u rhoi ar waith a bydd y gwaith sy'n weddill yn cael ei gwblhau'n fuan. Mae tudalen Facebook Arfordir yn cynyddu mewn poblogrwydd, gyda chynnydd yn niddordeb y cyhoedd sydd wedi bod yn rhoi sylwadau ac yn hoffi sylwadau diweddar am y gwaith maes sy'n cael ei gyflawni yn rhan o'r prosiect.

Eto roedd ymgysylltiad y gwirfoddolwyr yn helaeth, bu’r adborth llafar ac ysgrifenedig ar waith y prosiect yn gadarnhaol iawn hyd yn hyn, a dangoswyd ymroddiad parhaus y gwirfoddolwyr a chynaliadwyedd y prosiect ym maint y gwaith arolwg annibynnol a gyflawnwyd gan y gwirfoddolwyr.

## GGAT 118 Mynediad at Ddata sy'n Deillio o Reoli Cynllunio Archaeolegol

Bwriad y prosiect hwn yw ychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol trwy gynnwys gwybodaeth o adroddiadau llenyddiaeth ‘llwyd’, yn deillio o'r broses gynllunio, er mwyn gwella mynediad at yr adnodd a hwyluso rôl cynllunio archaeolegol ac ymchwil ehangach yn archaeoleg De-ddwyrain Cymru. Bydd ffynonellau papur hefyd yn cael eu digideiddio i safonau cymeradwy er mwyn helpu i'w diogelu.

Trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu galluogi aelodau o'r gymuned leol, grwpiau cymunedol, grwpiau hanes a myfyrwyr prifysgol lleol i ddysgu rhagor am y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ac archaeoleg gyffredinol De-ddwyrain Cymru, a rhoi gwybodaeth iddynt am y ffordd y mae archaeoleg yn cael ei hymgorffori yn y broses gynllunio, yn ogystal â sgiliau TG a sgiliau cartograffeg y gellir eu trosglwyddo.

Mae staff y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a Chynllunio Archaeolegol yn hyfforddi’r gwirfoddolwyr ac yn rhoi iddynt y sgiliau a’r wybodaeth a fydd yn eu galluogi i ddiweddaru/golygu safleoedd presennol neu ychwanegu safleoedd newydd a digwyddiadau archaeolegol at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Byddant hefyd yn dysgu sut i chwilio am wybodaeth a’i adalw yn y Cofnod a sut i’w ddefnyddio fel cyfrwng ymchwilio. Bwriad y prosiect hwn yw codi ymwybyddiaeth o’r adnoddau archaeolegol sydd ar gael, megis y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, a lledaenu hyn i’r gymuned ehangach. Yn ei dro, bydd ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr adnodd archaeolegol yng Nghymru, sy’n dal i fod *in situ* ac wedi’i gadw a’i gofnodi, yn cael ei hyrwyddo. Nodwyd y dasg hon yn Flaenoriaeth Uchel yn Archwiliad y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol 2010.

Hon yw ail flwyddyn prosiect tymor hwy, i weld yr archif gyfan o lenyddiaeth ‘lwyd’ sydd wedi crynhoi yn cael ei hychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ac yn cael ei digideiddio. Eleni canolbwyntiwyd ar recriwtio gwirfoddolwyr rhwng 18 a 30 oed er mwyn codi nifer y gwirfoddolwyr o’r proffil demograffig hwn yn yr Ymddiriedolaeth.

Cynhyrchwyd deunydd i recriwtio gwirfoddolwyr ym mis Mai, Roedd hyn yn cynnwys y canlynol: taflen hysbysebu, diweddariadau i wefan ficro'r prosiect presennol http://accesstoarchaeology.blogspot.co.uk, pecyn ymgeisio newydd a manylion ychwanegol am y prosiect. Erbyn y dyddiad cau ym mis Mehefin roedd deg gwirfoddolwr wedi ymgeisio ac ers hynny mae llawer o bobl eraill wedi gofyn am y prosiect a rhoddwyd pum enw ar y rhestr aros. Yn sgil pobl yn tynnu nôl a phobl yn dod yn eu lle, deg yw’r cyfanswm ar hyn o bryd. Lluniwyd y wefan ficro i redeg trwy gydol y prosiect ac ymhlith pethau eraill mae’n galluogi cyfranogwyr i gofnodi eu profiadau. Yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst cafodd myfyrwyr ar leoliad gyda’r Ymddiriedolaeth hefyd y cyfle i weithio ar y prosiect am gyfnod byr. Treuliodd saith myfyriwr gyfanswm o 60 awr ar y prosiect.

Mae rhaglen waith y flwyddyn bresennol yn cynnwys asesu 421 o adroddiadau sy’n cael eu cadw yn archif adroddiadau’r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol sy’n dyddio rhwng 1995 a 1998 (gan gynnwys y flwyddyn honno). Mae'r asesiad yn ymwneud â phenderfynu; a yw'r adroddiadau'n cynnwys deunydd a fyddai'n cael ei gofnodi fel cofnod o Ddigwyddiad yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, a yw'r wybodaeth wedi'i chofnodi'n barod yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol fel Digwyddiad, ac a yw'r wybodaeth a gofnodwyd yn yr adroddiadau wedi ei chofnodi fel cofnod (safle) Craidd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Yna mae’r holl wybodaeth berthnasol nad yw wedi ei chofnodi'n barod yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn cael ei chofnodi. Mae’r cofnodion a oedd wedi eu gwneud cynt yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gywir ac yn

gyflawn ac mae cysylltiadau angenrheidiol rhwng cofnodion Craidd, Digwyddiadau, Arteffactau a Llyfryddiaeth yn cael eu gwneud.


Hyd yn hyn (hyd at ddiwedd mis Awst 2013), mae cyfanswm o 25.5 o ddiwrnodau gwirfoddolwyr wedi cael eu cyfrannu at y prosiect. Cyflawnwyd hyfforddiant un i un gydag phob gwirfoddolwr ac mae'r staff yn dal i gynnig cefnogaeth yn ôl y galw. Mae'r ffigurau isod yn dangos canlyniadau asesu hyd yn hyn 158 o adroddiadau yng nghronfa ddata'r prosiect.

- Adroddiadau sy'n gyfeiriadau llyfryddol yn unig at ddigwyddiad: 6
- Adroddiadau dyblyg: 8
- Adroddiadau lle'r oedd yr holl wybodaeth wedi ei hychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn barod: 0
- Adroddiadau a oedd wedi cael eu disodli neu eu diwygio gan fersiwn diweddarach: 0
- Adroddiadau sydd y tu allan i ardal Cofnod Amgylchedd Hanesyddol GGAT: 4
- Adroddiadau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gofnod o Ddigwyddiad yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol: 6
- Adroddiadau nad ydynt ar gael dros dro neu nad ydynt yn eu bocsys: 1
- Adroddiadau lle mae angen ychwanegu gwybodaeth at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol: 123
- O'r 123 o adroddiadau lle'r oedd angen ychwanegu gwybodaeth at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, mae'r ffigurau a ganlyn yn berthnasol:
- Nifer y cofnodion Digwyddiad newydd a grëwyd: 115
- Nifer y cofnodion Craidd newydd a grëwyd: 12
- Nifer y cofnodion Arteffact newydd: 371
- Nifer y cofnodion Digwyddiad/Craidd presennol a olygwyd: dros 700
- Nifer yr ardaloedd Digwyddiad a ychwanegwyd at MapInfo: 82
- Nifer y dogfennau PDF a grëwyd: 11
- Nifer y cofnodion a gafodd gymeradwyaeth sicrwydd ansawdd: c88% o'r 123 o adroddiadau a aseswyd hyd yn hyn (mae'r archwiliad sicrwydd ansawdd cychwynnol wedi cael ei wneud wrth i bob cofnod gael ei orffen, cynhaliwyd archwiliad sicrwydd ansawdd mwy trylwyr ar ddiwedd pob mis).

## GGAT 129 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar De-ddwyrain Cymru (c AD1100-AD1750): Maenorau Sistersaidd Morgannwg a Gwent

Cynhaliwyd asesiad desg cychwynnol o 113 o faenorau mynachaidd canoloesol a safleoedd perthnasol ym Morgannwg a Gwent gan ddefnyddio data'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, data'r Cofnod Henebion Cenedlaethol a ffynonellau priodol eraill; dangosodd hyn tua 105 o safleoedd Sistersaidd ac aethpwyd ati i asesu'r rhain yn gyflawn.

Defnyddiodd yr asesiad desg ddata'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, data'r Cofnod Henebion Cenedlaethol a ffynonellau priodol eraill (e.e. Williams 1990 & 2001). Yn y lle cyntaf nodwyd 49 safle posibl i ymweld â hwy, ond wrth ddadansoddi'n fwy manwl cafodd y rhain eu lleihau i restr derfynol o 35 safle a oedd yn haeddu cael ymweliad. Gan hynny rydym wedi dechrau chwilio'r Gofrestr Tir i ddod o hyd i'r tirfeddianwyr, er mwyn trefnu caniatâd mynediad i'r safleoedd. Mae ymweliadau â safleoedd lle nad oes angen caniatâd y tirfeddianwyr wedi mynd rhagddynt ac ymwelwyd eisoes â 15 safle, er nad oedd pob un yn hygyrch. Y bwriad yw ymgymryd â gweddill yr ymweliadau safle yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn ariannol bresennol.




***Maenorau Sistersaidd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar: Gwerthuso Safleoedd Amgylcheddol Hanesyddol***

Yn dilyn cwblhau'r ymweliadau maes bydd adroddiad cyffredinol yn cael ei lunio â disgrifiadau diweddar o'r safleoedd, a bydd gwybodaeth am gyflwr/arwyddocâd ac argymhellion ar gyfer diogelu (h.y. cofrestru) yn cael eu cynnwys mewn adroddiad ar wahân.

Hyd yn hyn mae'r tasgau canlynol wedi'u cwblhau:

- Cydosod coflenni safleoedd (data digidol a phapur);
- Gwerthusiad desg cychwynnol gan ddefnyddio'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a ffynonellau eilaidd;
- Dewis safleoedd i ymweld â hwy;
- Defnyddio'r Cofnod Henebion Cenedlaethol (CBHC) i edrych am ragor o wybodaeth am safleoedd, lle nad oes gwybodaeth yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol;
- Paratoi polygonau safle cychwynnol (i'w diwygio yn dilyn ymweliadau maes, lle bo angen);

*Cyfeirnodau*

Williams DH 1990 *Atlas of Cistercian Lands in Wales*

Williams DH 2001 *The Welsh Cistercians*

## GGAT 131 Arolwg a dadansoddiad o'r adeiladau yn Abaty Nedd

Cafodd y gwaith maes ar gyfer y prosiect hwn ei gynnal ym mis Mehefin, gyda gwirfoddolwyr o Brifysgol Abertawe a Chymdeithas Hynafiaethol Castell-nedd, a grŵp bach o fyfyrwyr israddedig archaeoleg a oedd ar leoliad profiad gwaith gyda'r Ymddiriedolaeth yn rhan o'u cwrs. Roedd y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i astudio adeiladu'r abaty ychydig yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn y rhaglen, gan nad oedd staff TG Prifysgol Abertawe yn barod i ganiatáu i fyfyrwyr ddefnyddio'r offer sganio ac felly roedd rhaid i'r holl sganio gael ei gyflawni gan y darlithydd a oedd yn rhan o'r prosiect, ac yn bennaf ar ôl i'r gwaith maes gael ei orffen. Felly roedd yr holl arsylwadau wedi cael eu cyflawni ar y maes. Gweithgaredd ychwanegol oedd lluniadu cymaint â phosibl o'r manylion archaeolegol, oherwydd daeth i'r amlwg yn ystod y gwaith maes bod y rhain wedi goroesi'n ddigon da i gael eu hystyried yn hanfodol wrth ddeall datblygiad strwythurol.

Roedd y ffotograffiaeth o'r archif yn llai defnyddiol na'r hyn a obeithiwyd. Darparodd Cymdeithas Hynafiaethol Castell-nedd yr archif o ffotograffau o gyfnod clirio'r safle yn y 1930au, ond roedd y

ddogfennaeth ynghylch gwahanol rannau o adeilad yr abaty yn amrywiol iawn, gyda rhan helaeth o'r diddordeb yn canolbwyntio ar yr eglwys; nid oedd yr un cofnod o'r gosodiadau diwydiannol. Rhoddodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ddau ffotograff o brosiect '*Britain From Above'*, ond nid oedd yr un ohonynt yn ddefnyddiol o ran cofnodi defnydd diwydiannol. Cafwyd anawsterau o ran sefydlu'r rhaglen ysgolion, gan nad oedd yr un o'r ysgolion lleol y cysylltwyd â hwy wedi ymateb. Yn ystod cyfnod gwaith maes y prosiect, ymwelodd grŵp o ysgol gynradd Sgiwen â'r safle; o ganlyniad aeth y myfyriwr Lleoliad Hyfforddiant Archaeoleg Cymunedol i'r ysgol i gynnal sesiwn fwy manwl.



***Arolwg EDM Abaty Nedd***

# RHAGLEN Y DYFODOL HYDREF 2013 – MAWRTH 2014

## GGAT 1 Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol

Bydd Adran Rheoli Treftadaeth yr Ymddiriedolaeth yn parhau â'i chylch gwaith rhanbarthol sef darparu gwasanaethau rheoli treftadaeth ac allgymorth treftadaeth archaeolegol eang a manwl, yn seiliedig ar y gwasanaethau y cytunwyd eu darparu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol i ymholwyr a mentrau er mwyn cynyddu ein hallgymorth i'r cyhoedd. Bydd gwybodaeth ystadegol fanwl yn parhau i gael ei darparu i Cadw yn ein hadroddiadau monitro rheolaidd.

Yn ystod yr hanner blwyddyn nesaf yn benodol bydd yr Adran Dreftadaeth yn:

- ❑ Mynd i Seminarau Milwrol yr Ugeinfed Ganrif;
- ❑ Trefnu'r 13eg Fforwm Treftadaeth Ranbarthol;
- ❑ Darparu rhagor o gymorth i ddatblygu Glastir os oes angen..

## GGAT 100 Gwasanaeth Allgymorth Rhanbarthol

Yn ystod ail hanner y flwyddyn byddwn yn:

- ❑ Cyfarfod â chynrychiolwyr ein deuddeg awdurdod unedol i drafod sut y gall yr Ymddiriedolaeth weithio gyda nhw i ddarparu allgymorth archaeolegol i'w cymunedau lleol (trwy er enghraifft well cysylltiadau â Sefydliadau Gwirfoddol Sirol neu Wasanaethau Gwirfoddoli a Cymunedau'n Gyntaf);
- ❑ Hyrwyddo arddangosiadau presennol a thaflenni i gynulleidfa ehangach;
- ❑ Diweddaru'r wybodaeth a ddarperir ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Bydd gwybodaeth am brosiectau newydd, yn trafod y gwaith a gyflawnwyd ar gyfer Cadw yn 2010-11, yn cael ei chynnwys yn adran Adolygiad Hanner Blwyddyn tudalennau Cadw;
- ❑ Llunio a gosod ar wefan yr Ymddiriedolaeth, tudalennau pwrpasol ar gyfer y prif gloddiadau a gyflawnwyd yn ystod 25 mlynedd cyntaf bodolaeth yr Ymddiriedolaeth;
- ❑ Darparu cyngor ymateb cychwynnol i ymholiadau am brosiectau Archaeoleg Cymunedol posibl, a fydd yn cael eu darparu trwy gymorth ein swydd Archaeolegydd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

## GGAT 103 Prosiect Arfordir Morgannwg Gwent

Bydd y saith grŵp sydd wedi cael eu sefydlu'n parhau i gael eu cefnogi. Bydd y ddau grŵp newydd yn cael hyfforddiant penodol. Bydd gwaith maes pellach yn parhau a bydd data a ddychwelir a ffurflenni arolygu wedi'u cwblhau yn cael eu cofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, a bydd safleoedd yn cael eu creu fel polygonau lle bo modd. Bydd adroddiad ar y prosiect yn cael ei lunio

Nawr bydd y prosiect yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd y grwpiau ar ôl i brosiect ddod i ben yn ffurfiol. Mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu ar hyn o bryd gyda phob un o'r grwpiau i drafod strategaethau blaengynllunio o ran cynnal y grwpiau a pharhau â'u gwaith maes. Mae cynlluniau ar waith i arddangos yr app Archwilio newydd (https://play.google.com/store/apps/details?id=mobi.cemas.archwilio&hl=en_GB) yn y cyfarfodydd hyn a'r gobaith yw y bydd y gwirfoddolwyr yn defnyddio'r app wrth ymgymryd â'u gwaith maes.

## GGAT 118 Cael mynediad i Ddata sy'n deillio o Reoli Cynllunio Archaeolegol

Bydd y prosiect presennol yn dirwyn i ben yn ystod y bedwerydd chwarter. Y tasgau sy'n weddill yw: asesu 261 yn rhagor o adroddiadau o dan y meini prawf a nodwyd, ychwanegu rhagor o wybodaeth at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ar sail canlyniadau'r asesiad hwn, ychwanegu'r ardaloedd Digwyddiad sy'n weddill at MapInfo a chreu dogfennau PDF ar gyfer holl adroddiadau'r Ymddiriedolaeth, a'r adneuwyr trydydd parti hynny sy'n rhoi caniatâd, yn ogystal â chefnogaeth barhaus a gwiriadau sicrwydd ansawdd. Bydd adroddiad terfynol hefyd yn cael ei lunio ar ddiwedd y prosiect.

## GGAT 129 Safleoedd Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar De-ddwyrain Cymru (c AD1100-AD1750): Maenorau Sistersaidd Morgannwg a Gwent (GGAT 129)

Bydd gwaith ail hanner y flwyddyn yn cynnwys cwblhau'r ymweliadau maes â thua 40-50 o faenorau (gan gynnwys sampl fach o Henebion Cofrestredig at ddibenion cymharu) i asesu cyflwr/arwyddocâd ac i ddiweddaru'r data digidol cysylltiedig gan gynnwys eu gosod yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a chreu ffiniau polygonaidd.

Yn dilyn hyn bydd adroddiad byr yn cael ei gynhyrchu yn cynnwys manylion yr asesiad, gwaith maes a geiriadur daearyddol o'r safle ac atodiad ar wahân i'r adroddiad ar gyfer unrhyw argymhellion diogelu yn y dyfodol.

## GGAT 130 De-ddwyrain Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Nid yw'r gwaith ar y prosiect hwn yn cychwyn tan fis Medi.

Bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu yn seiliedig ar y tasgau allweddol a nodwyd yn y rhaglen waith:-

- Adolygu a Goruchwylio
- Gwerthusiad desg yn defnyddio'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a ffynonellau eilradd.
- Gwirio'r Cofnod Henebion Cenedlaethol am ragor o wybodaeth am safleoedd lle nad oes gwybodaeth ar gael yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.
- Nodi safleoedd posibl newydd yn ardal y prosiect o ddogfennau a mapiau hanesyddol.
- Ymweliadau safle i ganfod maint a chyflwr yr olion sydd wedi goroesi.
- Creu rhestr ysgrifenedig a ffotograffig o'r olion sydd wedi goroesi
- Gwerthuso olion i bennu eu pwysigrwydd o bersbectif rhanbarthol a chenedlaethol.
- Paratoi adroddiadau.
- Paratoi fersiwn o'r canlyniadau sy'n apelio at bawb er mwyn ei ledaenu trwy wefan yr Ymddiriedolaeth, ei chyhoeddiad 'Darganfod a Dysgu', a thaflen 'Cyflwyno Olion Ffisegol y Rhyfel Byd Cyntaf' sy'n ymwneud â'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef ledled pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru.
- Mowntio tudalennau gwefannau.
- Allbynnau'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ac integreiddio data newydd.

## GGAT 131 Arolwg a dadansoddiad o Adeiladau Abaty Nedd

Y tasgau sydd ar ôl i'w cwblhau yn ail hanner y flwyddyn yw:

- Glynu ffotograffau wrth ei gilydd i ffurfio golygon o waliau cyfan a pharatoi model 3D
- Paratoi adroddiad llenyddiaeth 'lwyd', gan gynnwys adroddiadau gan y timau.
- Rhoi cyflwyniadau cyhoeddus ar ganlyniadau'r gwaith.

# CONTRACTAU GWYDDONOL A ARIENNIR GAN CADW

Ni oedd yr un gofyniad am gyngor na chymorth fel sydd ar gael o dan y trefniadau hyn.

# ADOLYGIAD ÔL-GLODDIO A CHYHOEDDIADAU

Mae gwaith ôl-gloddio o ran mân archwiliadau yng Nghastell-nedd wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ar y cloddiadau a gynhaliwyd rhwng 2010 a 2012 maes o law.

Mae cronfa ddata o'r holl adroddiadau llenyddiaeth 'lwyd' a gynhyrchwyd ar gyfer Cadw wedi'i chadw. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhyrchwyd yr adroddiadau a restrir isod.

Bowden R *GGAT 103 Arfordir Coastal Heritage 2012-2013* GGAT Adroddiad Rhif **2013/022**

Evans EM *Rock art in Southeast Wales: Gelligaer Community Prehistoric Rock Art Survey* GGAT Adroddiad Rhif **2013/018**

Hart R *GGAT 128: Cwm Nash Cemetery, Monknash, Vale of Glamorgan: geophysical and topographic survey* GGAT Adroddiad Rhif **2013/029**

Huckfield P *GGAT 112: Second World War Military Airfields of South Wales: Year 2-Airfield Hinterland* GGAT Adroddiad Rhif **2013/024**

Huckfield P *Site of the National Eisteddfod 2012, Llandow, Vale of Glamorgan: Archaeological watching brief and geophysical survey* GGAT Adroddiad Rhif **2012/063**

Huckfield P *Land belonging to the former RAF Llandow, Vale of Glamorgan archaeological watching brief and geophysical survey* GGAT Adroddiad Rhif **2012/064**

Roberts R GGAT 119: Windmills in Glamorgan and Gwent GGAT Adroddiad Rhif 2013/002

Roberts R *GGAT 120: Early Extraction in Glamorgan and Gwent* GGAT Adroddiad Rhif **2013/003**

Roberts R *GGAT 121: Iron Production - Forges in Glamorgan and Gwent* GGAT Adroddiad Rhif **2013/004**

Pamment, SP *Monastic Margam Community Survey Project* GGAT Adroddiad Rhif **2013/020**

Tuck M *GGAT 122 Nidum - Neath Roman fort and environs* GGAT Adroddiad Rhif **2013/013**

# PROSIECTAU POSIBL AR GYFER CYLLID WRTH GEFN A CHYNIGION AMLINELLOL AR GYFER PROSIECTAU 2014 – 2015

Cyflwynwyd y rhain mewn dogfennau ar wahân.

## ATODIAD 1 – Adolygiad o gyflawni Amcanion Llywodraeth Cymru

Yn ein cynigion prosiect ar gyfer 2012 – 2013 gwnaethom nodi sut y byddai'r rhain, ymhlith pethau eraill, yn mynd i'r afael â rhai o amcanion Llywodraeth Cymru, ac yn fwy penodol, sut y byddent yn helpu i gyflawni rhai o amcanion Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru, a thrwy hynny, sut y byddent o fudd i boblogaeth De-ddwyrain Cymru. Ar ôl cwblhau'r gwaith, rydym yn awr yn adolygu llwyddiant yn fras o gymharu â'r agenda ehangach ac yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn ag amcanion penodol sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol.

Mae'r rhaglen wedi golygu bod modd cadw staff Amgylchedd Hanesyddol proffesiynol, graddedig a medrus yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae'r gwaith a wneir gan y staff hyn yn cynhyrchu swyddi archaeolegol a swyddi cysylltiedig eraill yn yr Ymddiriedolaeth neu mewn sefydliadau eraill. Mae'n anodd cyfrifo faint o swyddi amser llawn a rhan-amser a grëwyd neu a gynhaliwyd gan y broses gynllunio, ond amcangyfrifir bod cloddiadau ac ymchwiliadau eraill a gynhaliwyd gan sefydliadau archaeolegol, bach a mawr, ar draws y rhanbarth wedi arwain at greu'r hyn a fyddai'n cyfateb i 30-50 o swyddi amser llawn. Graddedigion, a chanddynt raddau pellach neu gymwysterau proffesiynol ychwanegol weithiau, yw deiliaid y rhan fwyaf o'r swyddi hyn, ond mae modd ymuno â'r proffesiwn heb ddilyn llwybr academaidd.

Er bod cysylltiadau â strategaethau lefel uchel yn amlwg ar gyfer rhai meysydd gwaith, mae'n anos mesur yr effaith gyfan oherwydd y llwybrau ymgynghori, cynghori a chyfathrebu. Mae hyn yn arbennig o wir am ein prosiect gwasanaethau Rheoli Treftadaeth. Yn sicr, mae'r partneriaethau a ddatblygwyd â'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol wedi helpu i ddiogelu ein treftadaeth leol ac i'w deall yn well, a gellid dweud eu bod wedi helpu i ddatblygu 'Cenedl Gref a Hyderus'. Mae'r partneriaethau rydym wedi eu datblygu gyda chyrff llywodraethol ar lefelau lleol a chenedlaethol, sefydliadau'r trydydd sector a chyrff y sector preifat hefyd i'w gweld yn helpu i gyflawni amcanion ar gyfer 'cymdeithas lewyrchus'.

Mae ein prosiect Allgymorth a'n prosiectau a arweinir gan y gymuned yn amlwg yn cefnogi'r agenda 'Dysgu i Fyw' trwy gyflenwi gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol i gymunedau ac aelodau unigol o'r cyhoedd, a'u cynorthwyo i ddatblygu sgiliau sy'n eu helpu i ymchwilio i hanes ac archaeoleg eu hardaloedd ac sydd hefyd yn gallu gwella eu profiadau bywyd. Cynorthwywyd hyn trwy sicrhau arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri trwy Gyngor Archaeoleg Prydain a'n galluogodd i gyflogi Archaeolegwyr Cymunedol a chynnig hyfforddiant dysgu yn y gweithle iddynt dros y tair blynedd diwethaf. Daw'r adnodd hwn i ben ym mis Hydref 2013 a heb unrhyw beth arall i'w gynnig yn ei le a'r posibilrwydd o ostyngiad yn yr arian gan y llywodraeth, bydd ein capasiti i ddarparu'r agendau hyn cryn dipyn yn llai. Mae ein prosiect Arfordir ar yr un pryd hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o broblemau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Cefnogir yr agenda hefyd gan ein gwaith yn darparu gwybodaeth trwy lyfrynnau, darlithoedd, arddangosfeydd a chymwysiadau ar y we ac yn darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr gael profiad o archwilio archaeolegol. Trwy integreiddio staff proffesiynol, gwirfoddolwyr, myfyrwyr ac academyddion sy'n rhannu'r un diddordeb cryfhawyd perthnasoedd rhwng gwahanol elfennau o gymdeithas gan gryfhau synergedd.

Mae'n haws mesur gwaith cynllunio. Yn 2012-2013 roedd 81 o achosion lle'r oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol angen gwybodaeth ychwanegol am yr adnodd archaeolegol a 323 o argymhellion na ddylid rhoi caniatâd cynllunio heb amodau o ran gorfod ymgymryd â gwaith archaeolegol yn ystod y datblygiad. Ystyriwyd gwybodaeth fanwl am effaith datblygiad arfaethedig ar yr adnodd archaeolegol ar gyfer 1,121 o geisiadau. Mae'r gofynion gwybodaeth ychwanegol a gwybodaeth fanwl ar yr un lefel â blynyddoedd blaenorol. Mae ein Gwasanaeth Rheoli Cynllunio Archaeolegol wedi bod yn cynorthwyo pob un o'r Awdurdodau Unedol yn y Rhanbarth i ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol gan sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a bod Asesiad Amgylcheddol Strategol priodol yn cael ei

wneud. Ni fydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu cydnabod yn llawn nes bydd y Cynlluniau Datblygu Lleol wedi cael eu mabwysiadu a'u gweithredu.

Trwy hyrwyddo diwylliant cyfoethog ac amrywiol mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r doreth o dirweddau hanesyddol ac archaeoleg sydd yn ein hardal. Mae'r modd rydym yn lledaenu gwybodaeth yn gydnaws â llawer o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru trwy ddatblygu, neu yn wir ailfywiogi naws am le. Mae Cymru’n elwa ar dirweddau ansawdd uchel a chyfoeth o safleoedd archaeolegol a henebion. Mae diogelu a gwella'r ansawdd hwn yn bwysig er mwyn i Gymru fod yn lle y mae pobl yn dewis byw a gweithio ynddo. Mae ein gwaith asesu henebion yn cefnogi darparu data ar gyfer pob agwedd ar y dirwedd mewn cyd-destunau gwledig, lled-wledig a threfol, ac yn caniatáu i ddatganiadau awdurdodol gael eu gwneud ar hynodrwydd De-ddwyrain Cymru fel rhanbarth.

*Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru*

Mae cyhoeddi Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru gyda chynlluniau gweithredu ategol sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion traws-sector er budd Cymru a'i thrigolion wedi ein caniatáu i adrodd yn benodol ar yr hyn a gyflawnwyd yng nghyswllt y nodau sydd yn y datganiad. Er bod y weinyddiaeth wedi newid ers cyhoeddi'r Datganiad Strategol, a datganiad newydd wedi'i gyhoeddi yn 2013, mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi yn erbyn y datganiad cynharach oherwydd bwriad y prosiectau yn yr adolygiad hwn oedd cefnogi cyflawni rhai o'r nodau yn y cynllun gweithredu manwl ar gyfer yr adroddiad *hwnnw*. Ceir crynodeb o'r rhain yn y tabl isod.

| *Amcanion* | *Targedau(lle maent wedi'u nodi)* | *Camau Gweithredu GGAT* |
|---|---|---|
| Gwarchod a diogelu ein hamgylchedd hanesyddol | • Cyflawni'r nod o addysgu'r cyhoedd ynglŷn ag archaeoleg<br><br>• Helpu i ddatblygu Ymddiriedolaeth Elusennol CAH Morgannwg-Gwent<br><br>• Gwaith Cynllunio Archaeolegol a Rheoli Treftadaeth | Rydym wedi parhau i gyflawni ein hamcan ac adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein strategaeth gytunedig ar gyfer y dyfodol (gweler http://www.ggat.org.uk/about_us/company%20documents/2012-2013%20Forward%20Strategy%20Review.pdf).<br><br>Trwy wneud hyn rydym hefyd wedi helpu i ddatblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent yn ymarferol a thrwy ddarparu costau rheoli a gwasanaethau.<br><br>Adroddir am ein llwyddiannau cyffredinol yn y cyswllt uchod ac mewn meysydd eraill yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a baratowyd i fodloni'r *Statement of Recommended Practice in Accounting and Reporting by Charities* (2005) a bydd ar gael ar-lein maes o law (cf http://www.charitycommission.gov.uk/find-charities/). Oherwydd maint ein gweithrediadau bydd Datganiad Gwybodaeth Atodol am Elusen hefyd yn cael ei gyflwyno cyn diwedd blwyddyn ariannol 2013—2014.<br><br>Rydym wedi parhau i gynnal Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol a Rheoli Treftadaeth effeithiol trwy bartneriaeth â Cadw, y 12 Awdurdod Unedol yn Ne-ddwyrain Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ochr yn ochr â gwaith achos rheolaidd a gwaith datblygu cynllunio strategol, rydym wedi dechrau integreiddio Cofnod Amgylchedd Hanesyddol GGAT yn llawnach gyda rhai awdurdodau cynllunio, rydym wedi cefnogi datblygiad pellach cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir ac rydym wedi buddsoddi er mwyn datblygu ymhellach System Rheoli Treftadaeth GGAT – elfen ddigidol Cofnod Amgylchedd Hanesyddol GGAT sy'n caniatáu iddo gael ei ddefnyddio oddi ar y safle ac ar-lein – a'r gwelliannau i'r trefniadau storio archifau papur a ffotograffau.<br><br>Ymhlith pethau eraill rydym wedi ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cymru i bolisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru (http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3978&Opt=0) ac wedi cefnogi a chyfrannu at ymgynghoriadau a arweinir gan Cadw o ran y Bil Treftadaeth Cymru arfaethedig, yn enwedig o ran darparu Gwasanaethau Cadwraeth Amgylchedd Hanesyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | | (http://cadw.wales.gov.uk/docs/cadw/publications/Heritage_Bill_for_Wales_Local_Authority_Conservation_Services.pdf), a chan Sefydliad yr Archaeolegwyr o ran datblygu rhagor o Safonau a Chanllawiau Proffesiynol, ac yn enwedig datblygu canllawiau o'r fath am gyngor gan y Gwasanaethau Amgylchedd Hanesyddol. (http://www.archaeologists.net/sites/default/files/node-files/IfASG-Archaeological-advice-final.pdf) ac ar gyfer comisiynu gwaith ar archaeoleg a'r amgylchedd hanesyddol neu ddarparu cyngor ymgynghorol yn eu cylch. (http://www.archaeologists.net/sites/default/files/node-files/IfASG-Commissioning-final.pdf). |
| | • Nodi safleoedd a henebion i'w diogelu trwy asesiadau sy'n seiliedig ar fygythiad | Rydym wedi ymgymryd â rhaglenni penodol i adolygu henebion o darddiad canoloesol ac ôl-ganoloesol cynnar a hefyd y meysydd awyr a grëwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd gyda'r bwriad o nodi'r rheini y mae arnynt angen gwell diogelwch. |
| | • Gwella dysgu a dealltwriaeth o ran pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol trwy ymgysylltu â'r cyhoedd | Cododd yr Ymddiriedolaeth ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd Hanesyddol trwy eiriolaeth. Darparodd gyngor i ystod eang o gyrff rheoleiddio a chyrff nad ydynt yn rheoleiddio ar faterion amrywiol sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ei hamcanion allgymorth penodol ar gyfer 2011-2015 gan wella ei darpariaeth archaeoleg gymunedol yn arbennig. Edrychodd yr Ymddiriedolaeth ar ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau cyfathrebu. Ychwanegwyd at gynnwys y wefan a gwnaethpwyd addasiadau i'r tudalennau cysylltu â ni, y tudalennau cymunedol a'r tudalennau cyhoeddiadau, a chyhoeddwyd ystod o eitemau newyddion trwy blogger a wordpress. Trwy gyfrwng ein hadnoddau ein hunain ac mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaethau eraill Cymru rydym wedi cefnogi datblygiad app a fydd yn caniatáu mynediad i ffonau clyfar i'r porth ar-lein (Archwilio) i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| Adfywio a datblygu cynaliadwy trwy dreftadaeth | • Cynnal gwasanaethau curadurol effeithiol sy'n cynnwys arbenigwyr ar yr amgylchedd hanesyddol i hwyluso arfer gorau | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gynnal gwasanaeth curadurol effeithiol i'r ardal sy'n dod o dan hen siroedd Morgannwg a Gwent. Mae'r gwasanaeth wedi'i rannu'n dair adran – Rheoli Cynllunio Archaeolegol, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, Rheoli Treftadaeth. Mae'r swyddog arweiniol ym mhob un o'r adrannau hyn yn Aelod llawn o Sefydliad yr Archaeolegwyr ac yn ein hadran Rheoli Cynllunio Archaeolegol mae'r swyddogion i gyd yn aelodau llawn o'r Sefydliad. Fel y nodwyd uchod mae uwch staff yn yr Ymddiriedolaeth wedi cyfrannu tuag at ddatblygu dogfennau Safonau a Chanllawiau'r sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd ar Gofrestr Sefydliadau'r Sefydliad (Rhif 15) |

| | | |
|---|---|---|
| | | ac yn ei harolygiad diwethaf yn 2011 pasiodd heb unrhyw amodau nac argymhellion ar gyfer gwella. Cafodd hyn ei ailadrodd yn gynnar yn 2013. |
| | • Cynnal a gwella cofnodion effeithiol o Asedau Treftadaeth, pa un a ydynt wedi eu cofrestru ai peidio | Cafodd y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, dan frand ar y cyd Archwilio Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru (http://www.archwilio.org.uk/) ei gyfoethogi â gwybodaeth newydd a modiwl i gefnogi'r gwaith o lwytho i fyny adroddiadau llenyddiaeth 'lwyd' ddatblygwyd. Mae ein prosiect Mynediad i Archaeoleg wedi dechrau ein caniatáu i ychwanegu adroddiadau llenyddiaeth 'lwyd' at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (ceir mwy na dwy fil o adroddiadau o'r fath yn ein harchif) â phob un o'r rhain yn cysylltu â'r safleoedd amrywiol y maent yn sôn amdanynt. Mae'r gwaith nid yn unig yn gwella ein cofnod ond gan ei fod hefyd yn dibynnu ar wirfoddolwyr mae'n gwella sgiliau'r cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn o gystal â gwelliannau o ran gwybodaeth. |
| | • Cefnogi gwaith pennu nodweddion | Nid oes gwaith i bennu nodweddion tirwedd hanesyddol wedi'i wneud, ond mae'n bosibl y bydd cyfle i wneud gwaith o'r fath yn y dyfodol mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol. Rydym yn parhau i aros am y fethodoleg hir ddisgwyliedig ar gyfer Pennu Nodweddion Trefol yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhoi Mynediad i'r Cyhoedd, gwerthfawrogi a mwynhau'r amgylchedd hanesyddol | • Cyflawni'r nod gyffredinol o addysgu'r cyhoedd ynglŷn ag archaeoleg | Rydym wedi parhau i gyflawni ein hamcan ac adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein strategaeth ar gyfer y dyfodol a gytunwyd (gweler http://www.ggat.org.uk/about_us/company%20documents/2012-2013%20Forward%20Strategy%20Review.pdf). |
| | • Camau penodol, fel y rhai yn ein prosiect Allgymorth | Trefnodd a chynhaliodd yr Ymddiriedolaeth raglen allgymorth (gweler http://www.ggat.org.uk/education/english/outreachevents.html) gan gynnwys digwyddiadau penodol yn gysylltiedig â Gŵyl Archaeoleg Prydain. (http://ggat.wordpress.com/2012/07/, http://ggatblog.blogspot.co.uk/2012/07/damp-but-not-disheartened.html?view=classic) a mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol. (http://ggat.wordpress.com/2012/08/, http://ggatblog.blogspot.co.uk/search/label/National%20Eisteddfod) a digwyddiadau cydweithredol eraill gyda Cadw (yn Abaty Nedd) a Chastell Cil-y-coed (gweithgareddau ar thema'r Oes Efydd); roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys cyfres o deithiau cerdded wedi'u tywys. Parhaodd yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ymddiriedolaeth i gyflawni ei hamcanion allgymorth penodol ar gyfer 2011-2015 ac yn arbennig datblygodd ei darpariaeth archaeoleg gymunedol yn rhannol fel partner i gynllun Hyfforddiant Archaeolegwyr Cymunedol Cyngor Archaeoleg Prydain dan raglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri. |
| | • Rhaglenni ymgysylltu â'r cyhoedd penodol fel y rhai y cyfeirir atynt ym mhrosiect Arfordir. | Bu prosiect Archaeoleg Gymunedol yn cofnodi olion yn Abaty Margam. Cyflawnwyd trydedd rhan prosiect Arfordir yn llwyddiannus gyda dros 50 o wirfoddolwyr yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi, darganfuwyd nifer o safleoedd newydd ar arfordir y Gŵyr, Bae Abertawe ac o gwmpas Cynffig a Merthyr Mawr a chafodd erydu ei fonitro. (cf http://www.ggat.org.uk/arfordir/index.html). |
| Ymchwil ac Ysgolheictod | • Hwyluso mynediad at ddata a gedwir gennym i aelodau o'r cyhoedd, myfyrwyr ac ymchwilwyr eraill | Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i annog, cefnogi a chynorthwyo archwiliadau ac ymchwil i'r amgylchedd hanesyddol yn Ne-ddwyrain Cymru. Darparodd y staff hyfforddiant proffesiynol gan roi cyngor i gontractwyr archaeolegol ac eraill a oedd yn gwneud archwiliadau yn Ne-ddwyrain Cymru. Ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a'i gynnal, gan anfon data cofnodion a gwybodaeth ategol ar gais. |
| | • Ymgymryd â rhaglenni astudio penodol: y blaenoriaethau presennol yw asesu asedau treftadaeth Canoloesol ac Ôl-ganoloesol cynnar ac asedau treftadaeth yr Ail Ryfel Byd | Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth arolygon o henebion a thirwedd hanesyddol yn y rhanbarth cyfan ac arolygon eraill. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau presennol, gan gyflawni gwaith manwl ar Felinau Dŵr, Gefeiliau a Safleoedd Echdynnu Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Cynnar, ac asesu olion yn amgylchion Meysydd Awyr a Safleoedd Damweiniau yr Air Ryfel Byd. |
| | • Cynllunnir ein prosiectau i helpu i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd yn Fframwaith Ymchwil Archaeolegol Cymru. | Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gefnogi, lle y bo'n bosibl, y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn Fframwaith Ymchwil Archaeolegol Cymru. |